Teitl dros dro:

Drafft ymgynghori

Y fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: Cod ymarfer

fersiwn 2 [*dyddiad y bwriedir i'r fframwaith ddod i rym:* Medi 2027]

Rhaglith 1
Cyfeiriadau a throednodiadau 2
Diffiniad o ofal a chymorth 3
Gwasanaethau y mae'r Cod hwn yn gymwys iddynt 3
Comisiynu sy'n cael ei wneud gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a/neu gydgomisiynu lleol 4
Cyflawni System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru 5
Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth 6
Comisiynu Gofal a Chymorth 7
Y Cylch Comisiynu 9
Caffael 10
Rheoli contractau ar gyfer sicrhau ansawdd a gwelliant parhaus 11
Gwerth i'r cyhoedd a chomisiynu sy'n gymdeithasol gyfrifol 11
Egwyddorion comisiynu cyson, moesegol, effeithiol a thrawsnewidiol 12
Egwyddorion Comisiynu Gofal a Chymorth 13
Safonau Comisiynu Gofal a Chymorth 14
Defnyddio data i gefnogi'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau 24
Darparu data am y gweithlu i Gofal Cymdeithasol Cymru 24
Prosiect Cartrefi Gofal Cymru 24
Cynhwysiant a Hygyrchedd Digidol 25
Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol 25
Cefnogi'r Cyflog Byw Gwirioneddol 25
Y Gymraeg 26
Mwy na Geiriau 26
Cefnogi'r amgylchedd ac ystyriaethau o ran cynaliadwyedd 27
Cymorth a gwasanaethau i ofalwyr di-dâl 29
Gwasanaethau i Blant 30
Diogelu 30
Fframwaith NYTH 31
Rhestr termau 33
Atodiad: Hyperddolenni a chyfeiriadau 37

Rhaglith

1.1. Dyroddir y Cod Ymarfer hwn o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"[i]).

1.2. Mae hefyd yn ganllawiau o dan adran 169 o'r Ddeddf ac yn ganllawiau o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006"[ii]).

1.3. Daw'r Cod hwn i rym ar XXX, sef y dyddiad penodedig yn y gorchymyn diwrnod penodedig[1].

1.4. Mae'r Cod hwn yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) o'r Ddeddf i'r graddau y mae'n gymwys i gomisiynu gwasanaethau ataliol a ddarperir i fodloni dyletswydd awdurdod lleol o dan adran 15 o'r Ddeddf. Ei fwriad hefyd yw cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ran 4 o'r Ddeddf i ddiwallu anghenion 'gofal a chymorth' person. Mae adran 34(1)(c) o'r Ddeddf yn arbennig o berthnasol i gomisiynu 'gofal a chymorth' gan ei bod yn darparu y caiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion 'gofal a chymorth' person drwy ddarparu'r gwasanaeth ei hun neu drefnu i'r gwasanaeth gael ei ddarparu gan rywun arall.

1.5. Mae'r Cod hwn yn gymwys pan fydd bwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG yn darparu 'gofal a chymorth' fel rhan o becyn gofal a drefnir ac a ariennir ganddynt i ddiwallu anghenion nyrsio neu ofal iechyd sylfaenol unigolyn; pecyn gofal y gellir ei ddarparu neu y mae rhaid ei ddarparu o dan adran 2(1) ac adran 3 o Ddeddf 2006, ac y gwaherddir yr awdurdod lleol rhag ei ddarparu yn rhinwedd adran 47(1), (4) neu (5) o'r Ddeddf.

1.6. At ddibenion y Cod hwn, mae i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yr un ystyr ag sydd iddynt yn adran 197 o'r Ddeddf a chyfeirir atynt ar y cyd drwyddo draw fel 'partneriaid statudol'. Pan gyfeirir at gyrff unigol, defnyddir y term priodol. Pan gyfeirir at unigolion neu dimau sy'n cyflawni'r swyddogaethau comisiynu ar ran partneriaid statudol, defnyddir 'comisiynwyr'.

1.7. Rhaid i bartneriaid statudol weithredu'n unol â'r gofynion yn y Cod hwn. Nid yw adran 147 o'r Ddeddf (gwyro oddi wrth ofynion mewn codau) yn gymwys i unrhyw ofynion yn y Cod hwn.

1.8. Er mwyn sicrhau bod gan y Cod rym tebyg mewn perthynas â phartneriaid statudol, bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo[2] byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG o dan Ddeddf 2006 i arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r gofynion yn y Cod hwn.

---

[1] Hyperddolen i'r gorchymyn a throednodyn i'w hychwanegu ar ôl ei wneud
[2] Hyperddolen i'r gorchymyn a throednodyn i'w hychwanegu ar ôl ei wneud

1.9. Rhaid i bartneriaid statudol:

a) arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r gofynion yn y Cod hwn; a
b) ystyried unrhyw ganllawiau a nodir yn y Cod hwn.

1.10. Yn y Cod hwn, mynegir gofyniad fel "rhaid" neu "ni chaniateir" a mynegir canllawiau fel "dylai" neu "ni ddylai".

1.11. Dylid darllen y Cod hwn ar y cyd â'r holl godau ymarfer a chanllawiau a ddyroddwyd o dan y Ddeddf, ond yn benodol:

a) Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)[iii]
b) Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion)[iv]
c) Cod Ymarfer Rhan 8 ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol)
d) Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)[v]
e) Cod Ymarfer Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad[vi] a chanllawiau atodol anstatudol

1.12. Mae'r Cod yn cymhwyso egwyddorion a safonau i'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth a gynhelir gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru. Pan fo'n ofynnol gwneud darpariaethau yn y trefniadau contractio i sicrhau cydymffurfedd â'u cyfrifoldebau statudol yn y Cod hwn, rhaid i bartneriaid statudol wneud darpariaethau o'r fath a rhaid bod ganddynt fecanweithiau monitro a gwerthuso priodol ar waith i'w sicrhau eu hunain o ran cydymffurfedd.

Cyfeiriadau a throednodiadau

1.13. Er mwyn hwyluso'r defnydd ymarferol o'r Cod hwn, lle y bo modd, mae hyperddolenni wedi'u hymgorffori yn nheitlau dogfennau ac adnoddau y cyfeirir atynt yn y Cod hwn. Mae cyfeiriadau gwe llawn y dolenni wedi'u darparu mewn Atodiad cysylltiedig. Yn ogystal â hyn, nodwch y gellir dod o hyd i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ar wefan deddfwriaeth Llywodraeth y DU[vii]. Gellir dod o hyd i'r Codau Ymarfer a'r Canllawiau Statudol a ddyroddwyd o dan y Ddeddf yn: Codau ymarfer gwasanaethau cymdeithasol | LLYW.CYMRU[viii].
Roedd yr holl hyperddolenni a'r cyfeiriadau gwe yn y troednodiadau yn fyw, yn weithredol ac yn gywir ar yr adeg y dyroddwyd y Cod hwn. Er na all Llywodraeth Cymru sicrhau na rheoli gweithrediad dolenni allanol, os na fydd dolen yn gweithio yn ystod y cyfnod y mae'r fersiwn hon o'r Cod mewn grym ynddo, byddwn yn ceisio cyhoeddi fersiwn o'r Cod wedi'i diweddaru a fydd yn cynnwys dolen newydd sy'n gweithio.
Os na fydd hynny'n bosibl, bydd yr hyperddolen a'r troednodyn yn cael eu dileu, a bydd yr adran honno o'r Cod yn cael ei hadolygu a'i diwygio yn unol â hynny yn ystod yr adolygiad ffurfiol nesaf o'r Cod.

Diffiniad o ofal a chymorth

1.14. At ddibenion y Cod hwn, mae i'r term 'gofal a chymorth' yr un ystyr ag sydd iddo yn adran 4 o'r Ddeddf. Felly, mae unrhyw gyfeiriadau at ofal a chymorth yn y Cod hwn i'w dehongli fel cyfeiriad at ofal, cymorth, a gofal a chymorth gyda'i gilydd.

1.15. Mae adrannau 35 i 45 o'r Ddeddf yn cynnwys y dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a phlant ac anghenion cymorth gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr di-dâl sy'n blant. Mae adran 34(1) o'r Ddeddf yn rhoi enghreifftiau o'r ffyrdd y gall awdurdod lleol ddiwallu anghenion o dan adrannau 35 i 45 ac mae adran 34(2) yn nodi enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu i ddiwallu anghenion person am 'ofal a chymorth'.

Gwasanaethau y mae'r Cod hwn yn gymwys iddynt

1.16. Mae'r Cod hwn yn gymwys i gomisiynu gwasanaethau 'gofal a chymorth', gan gynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal gan:

a) awdurdod lleol – gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan awdurdod lleol, a/neu pan fo awdurdod lleol wedi trefnu iddynt gael eu darparu gan rywun heblaw'r awdurdod lleol (hynny yw, gwasanaethau a gomisiynir yn allanol), er enghraifft gan drydydd sector neu sefydliad preifat neu gwmni cydweithredol;
b) byrddau iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG – mae'r Cod hwn yn gymwys i'r elfen 'gofal a chymorth' o becyn gofal a drefnir ac a ariennir gan fwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG pan fo asesiad unigolyn wedi nodi bod ganddo 'angen iechyd sylfaenol' (mewn cyferbyniad ag angen am ofal a chymorth awdurdod lleol) neu ei fod angen gofal nyrsio. Gall enghreifftiau gynnwys darparu gwasanaeth cartref gofal yng nghyd-destun Gofal Iechyd Parhaus y GIG neu ddarparu unrhyw 'ofal a chymorth' gan fyrddau iechyd lleol neu ymddiriedolaethau GIG yng nghyd-destun gofal nyrsio a ariennir. I osgoi amheuaeth, bydd y Cod hwn yn gymwys pan fo bwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG yn rheoli gwasanaeth cartref gofal sy'n cynnwys gofal nyrsio. Mae'r Cod hwn yn gymwys i wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan fwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG, neu pan fyddant wedi trefnu i wasanaethau gael eu darparu gan rywun ar eu rhan (hynny yw, gwasanaethau a gomisiynir yn allanol), er enghraifft gan sefydliad trydydd sector, sefydliad preifat neu sefydliad cydweithredol;
c) trefniadau comisiynu cydweithredol, ar y cyd neu integredig (awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG, neu Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol) ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, gan gynnwys trefniadau partneriaeth ffurfiol yn cynnwys trefniadau rhwng cyrff y GIG ac awdurdodau lleol o dan adran 33 o Ddeddf 2006 a gwasanaethau rhanbarthol a ddatblygir drwy drefniadau ffurfiol o dan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol neu Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Gall hyn gynnwys trefniadau sy'n cynnwys partneriaid addysg pan gaiff gwasanaethau gofal a chymorth i blant a phobl ifanc eu cynllunio neu eu comisiynu ar y cyd.

1.17. Nid yw'r Cod hwn yn gymwys i:

a) gwasanaethau a ddarperir neu a drefnir gan awdurdod lleol nad ydynt yn wasanaethau gofal a chymorth nac yn wasanaethau ataliol o dan y Ddeddf;
b) gofal iechyd / gwasanaethau iechyd a ddarperir yn uniongyrchol neu a gomisiynir gan y GIG gan gynnwys gwasanaethau sy'n darparu lleoliadau mewn ysbytai a gwasanaethau gofal sylfaenol (Ymarfer Meddygol, Deintyddiaeth, Optometreg, Fferylliaeth); nac
c) gofal a chymorth a ddarperir i unigolyn drwy daliadau uniongyrchol (hynny yw, y trefniadau rhwng yr unigolyn sy'n cael taliadau uniongyrchol a'r person sy'n darparu'r gwasanaeth).

Comisiynu sy'n cael ei wneud gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a/neu gydgomisiynu lleol

1.18. Mae'r Cod hwn wedi'i gysylltu a'i integreiddio'n benodol â'r Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)[ix] a'r Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)[x] sydd wedi'u diweddaru i gryfhau trefniadau partneriaethau rhanbarthol.

Mae egwyddorion cydweithio, partneriaeth ac integreiddio wedi'u gwreiddio yng Nghanllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth) ac maent yn uniongyrchol gymwys i'r Fframwaith Cenedlaethol.

Yn unol â Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Rhan 9, rhaid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfun lle bo hynny'n briodol. Fel gofyniad sylfaenol, rhaid i gyrff partneriaeth sefydlu a chynnal:

a) trefniadau cydgomisiynu, gan gynnwys cronfa neu gronfeydd cyfun mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn;
b) cronfa gyfun mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau cymorth i deuluoedd.

Fel rhan o'u gweithgarwch cynllunio a chomisiynu ehangach, dylai'r cyrff partneriaeth ystyried manteision cydgomisiynu a chyfuno cyllid mewn meysydd blaenoriaeth eraill ar gyfer integreiddio, a rhaid iddynt ystyried manteision sefydlu a chynnal cronfa gyfun wrth weithredu ar y cyd mewn ymateb i asesiad o anghenion y boblogaeth.

Gellid ystyried cyfuno adnoddau i hybu prosesau cydgomisiynu ar sawl lefel. Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn helpu'r cyrff partneriaeth i bennu'r lefel fwyaf priodol ar gyfer cyfuno adnoddau er mwyn sicrhau'r effaith a'r budd mwyaf. Y lefelau hyn yw:

a) rhanbarthol, is-ranbarthol
b) grŵp clystyrau cyfan, clwstwr
c) unigol.

Bydd gan y cyrff partneriaeth gyfrifoldeb statudol o hyd ar gyfer eu swyddogaethau a gyflawnir o dan yr holl drefniadau cronfeydd cyfun. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r bartneriaeth gynnwys y trefniadau llywodraethiant, gan gynnwys atebolrwydd, gwneud penderfyniadau a sut y bydd trefniadau'r cyllidebau cyfun yn cael eu rheoli.

Effaith comisiynu

1.19 Wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad[xi], rhaid i awdurdodau lleol ystyried effaith comisiynu a chyllido ar ddigonolrwydd, ansawdd a sefydlogrwydd y gwasanaethau rheoleiddiedig a ddarperir ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Gwneir hyn yn ofyniad penodol gan adran 144B o Ddeddf 2014. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt asesu dulliau rhanbarthol a lleol ar gyfer comisiynu, a'r defnydd o gyllidebau cyfun. Bydd hyn yn cynnwys effeithiolrwydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fel mecanwaith comisiynu ar gyfer gwasanaethau arbenigol, a defnyddio ffrydiau cyllid refeniw a chyfalaf ar draws ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Cyflawni System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru

1.20 Mae'r System Gofal Cymunedol Integredig yng Nghymru yn canolbwyntio ar alluogi pobl i fyw'n dda, yn nes at y cartref drwy atal, dewis, llesiant ac annibyniaeth.
Un o brif flaenoriaethau'r System Gofal Cymunedol Integredig yw sefydlu fframwaith canlyniadau a mesurau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd ar gyfer gofal integredig (gan gynnwys datganiadau 'Rydw i' a 'Rydyn ni' i sicrhau bod y gwaith cyflawni wedi'i wreiddio o hyd mewn profiadau a chanlyniadau gwell i'n poblogaeth).
Mae rhoi'r System Gofal Cymunedol Integredig ar waith yn gofyn am drefniadau cynllunio a chomisiynu effeithiol ar draws partneriaid i gysoni adnoddau, buddsoddiadau a darpariaeth gwasanaethau o amgylch canlyniadau a rennir ar gyfer y boblogaeth. Cynllunio a Chomisiynu yw un o Alluogwyr System y System Gofal Cymunedol Integredig ac mae'n hybu'r gwaith o ddatblygu llwybrau integredig a dulliau gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer diwallu anghenion gofal a chymorth pobl ar draws ffiniau sefydliadol.

1.21. Er bod rolau a gweithgareddau yn wahanol ar lefel leol, mae broceriaeth yn derm a ddefnyddir yn aml ar gyfer y broses o drefnu gofal a chymorth i unigolion.

Dylai broceriaeth roi anghenion, dymuniadau, (llais a rheolaeth) y person y mae angen gofal a chymorth arno wrth wraidd y broses bob amser. Gallai integreiddio broceriaeth yng ngwaith timau amlbroffesiynol sy'n seiliedig ar leoedd fel elfen o gysoni adnoddau a buddsoddi mewn blaenoriaethau a rennir gefnogi'r gwaith o gomisiynu llwybrau integredig a modelau gofal cymunedol ar y cyd.

Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

1.22 Mae'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth ("y Swyddfa Genedlaethol") wedi'i sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd yn chwarae rhan bwysig o ran y canlynol:

a) goruchwylio a chefnogi'r gwaith o weithredu a rheoli'r fersiwn hon o'r Cod hwn, a fersiynau dilynol;
b) monitro cydymffurfedd partneriaid statudol â gofynion y Cod hwn, a hyrwyddo safonau (cefnogi gweithredu cyson a gwelliant parhaus);
c) gweithredu fel adnodd canolog ar gyfer datblygu a gwella arferion comisiynu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cod hwn;
d) cefnogi comisiynwyr lleol a rhanbarthol o ran unrhyw heriau sylweddol sy'n ymwneud â goruchwylio'r farchnad; ac
e) cefnogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r Cod hwn i sicrhau ei fod yn aros yn gyfredol ac yn cyd-fynd â'r polisi a'r arferion comisiynu presennol (bydd hyn yn cynnwys newidiadau i gefnogi'r newid i fodelau gofal nid-er-elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal).

1.23. Efallai y bydd rhagor o ganllawiau comisiynu anstatudol yn cael eu cyhoeddi rhwng cyfnodau adolygu ffurfiol y Cod, pan fo arferion comisiynu a gweithredu penodol yn cael eu hyrwyddo, er mwyn hybu arferion da a gwella canlyniadau.

1.24. Mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi darparu pecyn cymorth er mwyn helpu partneriaid statudol â'r gwaith o fodloni gofynion y Cod hwn ac i adlewyrchu newidiadau i arferion comisiynu. Bydd yn cynnwys dogfennau canllaw, templedi, enghreifftiau o arferion nodedig ac arferion da a chymalau contract enghreifftiol cenedlaethol. Mae'r pecyn cymorth cyhoeddus ar gael drwy 'gymunedau Gofal Cymdeithasol Cymru'. Bydd modd i aelodau o'r gymuned gael gwybod pan gaiff offer neu adnoddau newydd eu hychwanegu at y pecyn cymorth.

I gael gafael ar y pecyn cymorth, ewch ati yn gyntaf i greu cyfrif 'cymunedau Gofal Cymdeithasol Cymru' ar y platfform cymunedau ar-lein[xii] ac yna gwnewch gais i 'ymuno' â chymuned Pecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol (Comisiynu).

Comisiynu Gofal a Chymorth

1.25. Nod y Ddeddf yw trawsnewid gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn cyflawni dau brif amcan:

a) Gwasanaethau sy'n sicrhau llesiant pobl: "yr hyn sy'n bwysig" iddynt yn ôl eu diffiniad eu hunain;
b) Gwasanaethau sy'n gynaliadwy er gwaethaf tueddiadau demograffig.

1.26. Mae'r Cod hwn yn gosod fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth.

1.27. At ddibenion y Cod hwn, mae comisiynu yn golygu gweithio gyda rhanddeiliaid fel partneriaid statudol i lywio penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau sydd eu hangen i ymateb i anghenion gofal a chymorth plant a phobl ifanc, teuluoedd ac oedolion, gan gynnwys gofalwyr, yng Nghymru.

Mae hefyd yn golygu gwneud penderfyniadau ynghylch capasiti, lleoliad, cost ac ansawdd gwasanaethau ynghyd â sut y byddant yn cael eu darparu a chan bwy.

1.28. Mae comisiynu yn ymwneud â dadansoddi, cynllunio, caffael, rheoli contractau a gwerthuso neu adolygu gwasanaethau a'u heffaith ar lesiant pobl. Mae'n ddull allweddol i alluogi sefydliadau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol ac ar gyfer llunio gwasanaethau i atal neu oedi, pan fo'n bosibl, angen am ofal a chymorth ac i ymateb i anghenion gofal a chymorth pobl nawr ac yn y dyfodol.
Gall comisiynu ddigwydd ar sawl lefel wahanol:

a) ar lefel unigol ar gyfer un person a'i anghenion penodol;
b) ar lefel gymunedol neu wasanaeth ar gyfer gwasanaethau penodol neu grwpiau o bobl ag anghenion tebyg; ac
c) ar lefel poblogaeth gyfan i fynd i'r afael ag anghenion poblogaeth gyfan.

1.29. Mae Cod Ymarfer Rhan 8 ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol)[xiii] yn nodi prif themâu'r Ddeddf. Y rhain yw:

- **Ffocws ar bobl** – sicrhau bod gan bobl lais a rheolaeth dros y gofal a'r cymorth a gânt, er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw a hefyd sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u datblygu o amgylch pobl.
- **Llesiant** – mesur llwyddiant o safbwynt canlyniadau i bobl yn hytrach na phroses.
- **Atal ac ymyrryd yn gynnar** – sicrhau bod gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar yn digwydd er mwyn lleihau'r graddau y mae angen yn gwaethygu a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.
- **Partneriaeth ac integreiddio** – pob asiantaeth a sefydliad, gan gynnwys ym maes iechyd, yn cydweithredu ac yn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion pobl yn y ffordd orau bosibl.

- **Hygyrchedd** – gwella'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael i bobl a sicrhau bod pawb, ni waeth beth fo'u hanghenion, yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth honno.
- **Modelau gwasanaeth newydd** – datblygu modelau newydd ac arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau.

1.30. Rhaid i bartneriaid statudol sicrhau bod gweithgareddau ac arferion comisiynu yn cyflawni dyheadau'r Ddeddf ar gyfer holl bobl Cymru. Mae Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) 2024 yn gosod cydgynhyrchu wrth wraidd y ffordd y dylai awdurdodau lleol, partneriaid, cymunedau a darparwyr gynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth. Mae cydgynhyrchu yn ffordd o weithio lle y mae ymarferwyr a phobl yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal i gynllunio a darparu gofal a chymorth.

Comisiynu

1.31. Mae comisiynu wedi'i sefydlu yn broses bwysig o ran modelu anghenion a'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae hefyd yn helpu i ysgogi'r gwaith o wella gwasanaethau, gan sicrhau canlyniadau gwell i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, drwy drefnu gwasanaethau ac ymyriadau sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n ystyriol o drawma, ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ledled Cymru, ceir eisoes lawer o enghreifftiau o arferion comisiynu a chaffael da a gwasanaethau yn cael eu darparu'n dda, ond ceir anghysondebau diangen yn y ffordd y caiff gwasanaethau gofal a chymorth eu comisiynu a'u darparu.

1.32. Mae comisiynu'n digwydd i sicrhau yr asesir ar gyfer gofal a chymorth a'u bod yn cael eu cynllunio a'u trefnu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn y ffordd orau, ac mae hyn yn cynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal.

1.33. Mae comisiynu yn cynnwys ystod o weithgareddau, gan gynnwys deall;

a) anghenion unigolion ac anghenion y boblogaeth (ar hyn o bryd a'u rhag-weld ar gyfer y tymor hwy);
b) ansawdd, sefydlogrwydd a digonolrwydd y ddarpariaeth ofal;
c) yr amrywiaeth o sefydliadau sy'n gweithredu mewn ardal, eu maint, eu cyfran o'r farchnad, a sut y maent yn rhyngweithio â'i gilydd;
d) yr adnoddau lleol sydd ar gael (gan gynnwys cyllid, y gweithlu ac ystod o asedau cymunedol)
e) sut i gydgynhyrchu gofal a chymorth sy'n helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig a hwyluso perthnasoedd cydweithredol.

Bydd hyn yn galluogi comisiynwyr i ddeall cymunedau lleol a sut y gallant amrywio yn dibynnu ar anghenion ac asedau lleol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am fodelau gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cynnig gwerth i'r cyhoedd.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth gyfun hon, mae comisiynwyr yn meithrin cysylltiadau ac yn datblygu trefniadau ar draws system gyfan, i gydgynhyrchu ymyriadau sy'n diwallu angen pobl am ofal a chymorth, gan gynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal, yn ogystal â siapio'r ddarpariaeth leol (gan gynnwys darpariaeth uniongyrchol) i sicrhau gwerth i'r cyhoedd.

1.34. Mae comisiynu yn gofyn am bersbectif system gyfan a'r gallu i feithrin a hwyluso ystod o gysylltiadau cydweithredol a chydgynhyrchiol. O safbwynt theori systemau dysgu dynol, mae comisiynwyr yn gweithredu fel stiwardiaid y system:[xiv]

a) Mae cysylltiadau cydgynhyrchiol yn creu'r sail ar gyfer sicrhau hawliau pobl i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau, a chymryd rhan mewn penderfyniadau, yn ogystal â chael cymorth eirioli i'w galluogi i wneud hynny.
b) Mae cysylltiadau cydweithredol yn creu'r sail i gomisiynwyr, darparwyr a phartneriaid weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau manteision dwyochrog, gan rannu adnoddau, risgiau a datrysiadau.

Mae comisiynu drwy gysylltiadau cydgynhyrchiol a chydweithredol yn hanfodol i sicrhau llesiant hirdymor y boblogaeth a gwasanaethau gofal a chymorth cynaliadwy.


Y Cylch Comisiynu

1.35. Mae'r cylch comisiynu isod yn dangos set o weithgareddau trawsnewid rhyngddibynnol ar draws swyddogaethau comisiynu a chaffael, sy'n ceisio sicrhau canlyniadau da i bobl.

Mae perthynas symbiotig rhwng yr elfennau, ac nid ydynt yn swyddogaethau unigol ar wahân.

Nid oes gan y cylch hyd penodol na man cychwyn a bydd partneriaid statudol yn gweithio drwy'r camau ar adegau gwahanol.

Mae'r holl gamau a gweithgareddau yn y cylch comisiynu yn bwysig ac yn angenrheidiol er mwyn comisiynu'n effeithiol a chyflawni canlyniadau llesiant i bobl ar sail 'yr hyn sy'n bwysig' iddynt.



Caffael

1.36. Mae caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arf pwerus sydd â'r gallu i wneud newidiadau parhaus, a sicrhau canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol er budd Cymru. Dylid dilyn Datganiad Polisi Caffael Cymru[xv] wrth gynnal proses gaffael gan ddefnyddio cyllid cyhoeddus.

Set o weithgareddau sy'n sicrhau gwasanaethau yw caffael. Mae'n cynnwys:

a) manylu ar ofynion drwy fanylebau;
b) sicrhau budd a gwerth i'r cyhoedd drwy'r llwybr prynu mwyaf priodol, er enghraifft tendro; ac
c) monitro effeithiolrwydd y gwasanaeth.

Rhaid i bartneriaid statudol gydymffurfio â Pholisi Caffael Cymru a'r ddeddfwriaeth gaffael ddiweddaraf, gan gynnwys Deddf Caffael 2023[xvi] a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023[xvii] ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig wrth ymgymryd â phrosesau caffael gwasanaethau gofal a chymorth.

1.37. Rhoddodd Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 y pŵer i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso rheolau caffael mewn perthynas â chaffael y GIG yng Nghymru. Newidiodd Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025[xviii] y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd, a ddarperir yn rhan o'r GIG yng Nghymru, eu caffael. Mae'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn gymwys i gaffael gwasanaethau *iechyd* gan awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Dyma'r awdurdodau perthnasol:

a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;
b) bwrdd iechyd lleol;
c) ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
d) awdurdodau iechyd arbennig.

Mae Atodlen 1 i Reoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 yn nodi'r gwasanaethau iechyd perthnasol, drwy gyfeirio at godau yr Eirfa Caffael Cyffredin.
Mae'r Rheoliadau yn disgrifio sut y dylai awdurdod 'benderfynu ar y broses gaffael briodol', hynny yw, y broses gyfreithlon ar gyfer dethol darparwyr gwasanaethau iechyd sydd o fewn y cwmpas.

Bydd y Rheoliadau yn gymwys i unrhyw broses gaffael gydweithredol neu ar y cyd a gynhelir gan awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol, ymddiriedolaeth GIG, neu awdurdod iechyd arbennig lle y gall y contract gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol neu nwyddau, ond gwasanaethau iechyd yw prif destun y contract.
Mae canllawiau manwl, gan gynnwys canllawiau ynghylch penderfynu ar y broses gaffael briodol, ar gael yn Caffael gwasanaethau iechyd (Cyfundrefn Dethol Darparwyr Cymru)[xix].

Rheoli contractau ar gyfer sicrhau ansawdd a gwelliant parhaus

1.38. Mae rheoli contractau effeithiol yn cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol ac mae'n seiliedig ar ddiwylliannau cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar ddysgu. Mae monitro contractau yn sicrhau bod modd casglu data a thystiolaeth ansoddol a meintiol, gan gynnwys profiadau bywyd, sy'n dangos i ba raddau y mae bwriadau, ansawdd a chanlyniadau comisiynu yn cael eu cyflawni, gan gynnwys monitro a yw gwasanaethau yn cael eu darparu'n foesol, yn gynaliadwy ac yn cynnig y gwerth gorau posibl. Dylid defnyddio dadansoddiad o'r wybodaeth hon i lywio'r cylch comisiynu nesaf.

Gwerth i'r cyhoedd a chomisiynu sy'n gymdeithasol gyfrifol

1.39. Mae fframwaith statudol Cymru yn disgrifio creu gwerth yn nhermau canlyniadau llesiant i gymdeithas yn hytrach na manteision sy'n benodol i gontractau.

Gwerth i'r cyhoedd yw'r budd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach a sicrheir i unigolion, cymunedau a Chymru drwy wariant cyhoeddus, comisiynu a chaffael - gan gyfrannu at lesiant, atal, tegwch, cynaliadwyedd a gwydnwch cymunedol, y tu hwnt i'r gwaith uniongyrchol o ddarparu'r gwasanaeth dan gontract.

1.40. Gall gwerth i'r cyhoedd gael ei gyflawni gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus, sefydliadau preifat (y rhai sy'n gwneud elw), sefydliadau nid-er-elw, mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol a sefydliadau'r trydydd sector. Mae tystiolaeth yn dangos ei bod yn fwy tebygol gwireddu gwerth cymdeithasol pan fo comisiynwyr, darparwyr, cymunedau a phobl â phrofiadau bywyd yn cydweithio i ddylunio a darparu gofal a chymorth. Mae partneriaethau amlsector yn gwella llesiant, yn cryfhau gwydnwch cymunedol, yn hybu gwaith atal, yn cynyddu llais a rheolaeth pobl, ac yn gwneud gwell defnydd o asedau lleol, y mae pob un ohonynt yn elfennau cydnabyddedig o werth cymdeithasol.

1.41. Gall gwasanaethau gofal a chymorth ymgysylltu â chymunedau lleol i sicrhau manteision dwyochrog a chefnogi gwydnwch a dyfeisgarwch cymunedol. Mae gwasanaethau gofal a chymorth hefyd yn bwysig ar gyfer hyrwyddo a chyflawni cydraddoldeb a hawliau dynol. Pan fyddant yn cael eu cyflawni'n effeithiol, maent yn hyrwyddo urddas, yn cefnogi byw'n annibynnol ac yn galluogi pobl i gynnal perthnasoedd a chysylltiadau â'r gymuned ehangach.

1.42. Gall comisiynu gwasanaethau yn lleol i ddiwallu anghenion lleol hefyd leihau gwastraff, lleihau ôl troed carbon a galluogi cymryd rhan mewn prosiectau amgylcheddol lleol.

1.43. Caiff gwerth economaidd ei gyflawni drwy waith teg a phan fydd tâl i'r gweithlu gofal cymdeithasol yn deg ar draws y sector.

1.44. Caiff modelau cyflawni gwerth i'r cyhoedd eu diffinio yn ôl eu gallu i gyflawni yn erbyn pedair egwyddor y Ddeddf (canlyniadau llesiant; cydgynhyrchu, llais a rheolaeth; cydweithio a phartneriaeth; atal ac ymyrraeth gynnar) ac i ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Dylai comisiynwyr ystyried gwerth i'r cyhoedd wrth gynnal eu prosesau comisiynu.

Egwyddorion comisiynu cyson, moesegol, effeithiol a thrawsnewidiol

1.45. Yn ganolog i egwyddorion comisiynu y mae'r egwyddor ynghylch "yr hyn sy'n bwysig" i bobl y mae angen gwasanaethau gofal a chymorth arnynt fel y nodir ym mharagraff 5 o Ganllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth).

> *"Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio gen i gyda phobl sy'n cydweithio i'm deall i, fy nheulu, a'm gofalwr/gofalwyr (a'n hanghenion), gan sicrhau mai fy lles i sy'n flaenllaw, gan roi imi lais, dylanwad a rheolaeth, a dwyn ynghyd y gwasanaethau a'r rhwydweithiau cymorth a fydd yn cyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i mi".*

1.46. Mae'r rhan hon o'r Cod hwn yn nodi set o egwyddorion, canlyniadau, gwerthoedd a safonau ansawdd ar gyfer comisiynu gofal a chymorth. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar **saith egwyddor comisiynu effeithiol a moesegol** y mae rhaid i gomisiynwyr eu gwreiddio yn eu harferion comisiynu ac annog darparwyr yn rhagweithiol i'w gwreiddio wrth ddarparu gwasanaethau.

Egwyddorion Comisiynu Gofal a Chymorth

1. **Mae perthnasoedd yn bwysig**: Daw perthnasoedd gofalgar, tosturiol a theg o gydgynhyrchu cynhwysol rhwng pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth a'u cyrff cynrychioliadol, a chomisiynwyr a darparwyr cymorth. Er mwyn i gydgynhyrchu fod yn gwbl gynhwysol, rhaid i gomisiynwyr barhau i ddatblygu eu dealltwriaeth o anghenion cyfathrebu ac ymgysylltu gwahanol bobl, gan gynnwys anghenion sy'n deillio o iaith, diwylliant, anabledd, statws economaidd, a niwroamrywiaeth.

2. **Mae arweinyddiaeth effeithiol yn gynhwysol, yn dryloyw ac yn onest**: I ailgydbwyso'r system iechyd a gofal cymdeithasol, mae angen i arweinwyr a chomisiynwyr fod yn atebol am greu diwylliannau cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar ddysgu. Dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dylai arweinwyr geisio gwella a datblygu'n barhaus y systemau dysgu digidol, technolegol a dynol y mae eu hangen i gasglu, rhannu a deall tystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys effeithiau ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol (cadarnhaol, negyddol a niwtral), yn ogystal â data; gyda'r nod o leihau dyblygu data (hynny yw, ei gasglu unwaith, ei ddefnyddio sawl gwaith).

3. **Cydweithio** yw'r modd y mae comisiynwyr, darparwyr, pobl a chymunedau yn cyd-greu gwerth a budd i'r cyhoedd. Mae'n symud y tu hwnt i ymgynghori a chydgysylltu i rannu arweinyddiaeth, rhannu atebolrwydd a risg, a rhannu perchnogaeth o ganlyniadau. Mae cydweithio yn creu gwerth drwy ddod â gwybodaeth, asedau, adnoddau ac arbenigedd pobl, cymunedau, darparwyr a chyrff cyhoeddus at ei gilydd er mwyn cyflawni canlyniadau na ellid eu cyflawni gan unrhyw sefydliad unigol sy'n gweithredu ar ei ben ei hun.

4. **Gwerth yw "yr hyn sy'n bwysig"**: Mae gwerth yn fwy na chost ariannol tymor byr. Mae'n ofal a chymorth o ansawdd da a diogel, sy'n cyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol i bobl; cyflawni "yr hyn sy'n bwysig" iddynt, yn ôl eu diffiniad eu hunain drwy sgyrsiau a chydgynhyrchu. Mae gwerth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gomisiynwyr wneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus - er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor a'r budd mwyaf posibl i'r cyhoedd, yn unol â'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol, caffael a rheoleiddiol gan gynnwys cydraddoldeb, hawliau dynol, egwyddorion gwaith teg, ystyriaethau economaidd, cymdeithasol, technegol ac amgylcheddol.

5. **Mae gofal a chymorth cynaliadwy yn seiliedig ar waith teg a phrisiau teg:** Rhaid i arferion comisiynu helpu cyflogwyr i wella tâl, statws, llesiant ac amodau gwaith gweithwyr gofal cymdeithasol gyda'r nod o sicrhau parch a thelerau ac amodau cyfartal ar draws y sectorau (statudol, preifat a'r trydydd sector).

6. **Cynllunio ar gyfer yr angen presennol a chenedlaethau'r dyfodol**: Mae comisiynu ar gyfer gwireddu canlyniadau gwell yn weithgaredd tymor canolig i'r tymor hir; mae gwaith cynllunio yn gofyn am rag-weld, a dylai'r gwaith cyflawni ganolbwyntio ar atal (gweler adran 15 o'r Ddeddf) a chynaliadwyedd (gan gynnwys ymrwymiadau carbon).

7. **Tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio drwy straeon a ffigurau**: Dylai comisiynwyr gasglu tystiolaeth gan bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, am yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r hyn sy'n eu helpu i gael bywyd da, ac yna defnyddio hyn i lywio canlyniadau gwasanaeth. Dylid mesur perfformiad gwasanaethau yn ôl profiad a chanlyniadau a dylai comisiynwyr hyrwyddo diwylliant o ddysgu a gwella parhaus, gan adeiladu ar arferion da a'u gwreiddio. Dylai prosesau gwneud penderfyniadau fod yn seiliedig ar ddata ac yn rhai a arweinir gan dystiolaeth.

Safonau Comisiynu Gofal a Chymorth

1.47. Mae'r safonau comisiynu a nodir isod yn gymwys i bob rhan o'r cylch comisiynu, gan gynnwys ailgynllunio a datgomisiynu gwasanaethau. Mae'r safonau'n berthnasol i bawb sy'n ymwneud â chomisiynu ac yn ategu adnoddau a chanllawiau mwy manwl ar gomisiynu a chaffael effeithiol ar gyfer poblogaethau penodol a modelau gwasanaeth penodol, a fydd yn cael eu cynnwys yn y pecyn cymorth.

1.48. Nod y gwaith safoni yw ysgogi arferion comisiynu cyson, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, drwy:

a) sicrhau bod partneriaid statudol yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Genedlaethol i sicrhau gwelliannau o ran gallu comisiynu;
b) nodi disgwyliadau cenedlaethol o ran ymarfer i ysgogi newid cadarnhaol drwy wella prosesau comisiynu yn barhaus er mwyn trawsnewid y gwaith o ddarparu gofal a chymorth a'u cynaliadwyedd;
c) hyrwyddo integreiddio lleol a lleol iawn, cydgomisiynu a chomisiynu ar y cyd a gwneud penderfyniadau ar y cyd.

1.49. Rhaid i bartneriaid statudol ddangos bod eu harferion comisiynu yn cael eu cynnal yn unol â'r Cod hwn. Rhaid i bartneriaid statudol ddarparu hunanasesiad blynyddol a chynllun gwelliannau â blaenoriaeth, yn y ffurf a ragnodwyd, i'r Swyddfa Genedlaethol erbyn diwedd mis Ebrill bob blwyddyn.

1.50. Er bod manteision clir o osod egwyddorion a safonau cenedlaethol at ddibenion ansawdd a chysondeb, cydnabyddir bod angen i bartneriaid statudol allu gweithredu'n hyblyg er mwyn gallu comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, sy'n ymateb i anghenion ac amodau poblogaeth leol, yn effeithiol.

Felly, er bod y Cod hwn yn gosod safonau ac egwyddorion cenedlaethol, maent wedi'u cynllunio i ddarparu a chynnal yr hyblygrwydd hwnnw. At hynny, mae'r pecyn cymorth wedi'i gynllunio i wella a chefnogi'r ffyrdd y gall comisiynwyr ymateb i anghenion lleol.

1.51. Mae'r egwyddorion a'r safonau yn y Cod hwn yn cyd-fynd â gwerthoedd y system gyfan a ddisgrifir yn Cymru Iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol[xx] sy'n canolbwyntio ar gydgysylltu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor a rhoi modelau gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith yn lleol, gan wneud y defnydd gorau o asedau lleol, i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Maent hefyd yn gydnaws â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd drwy wreiddio'r pum ffordd o weithio.

1.52. Cydnabyddir bod yr egwyddorion a'r safonau yn heriol ac yn uchelgeisiol eu natur mewn rhai meysydd a byddant yn gofyn am newidiadau ar draws y system gyfan dros amser, gan gynnwys datblygu polisi er mwyn i bartneriaid statudol gyflawni pob uchelgais yn y Cod hwn. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod adolygiadau o'r Cod hwn a gynhelir yn y dyfodol ac, os oes angen, yn cael ei weithredu drwy gyflwyno canllawiau comisiynu interim anstatudol ychwanegol o bryd i'w gilydd.

Safon 1: Gwreiddio gwerthoedd ac egwyddorion y Ddeddf ym mhob gweithgaredd comisiynu

Rhaid i bartneriaid statudol arddangos gwerthoedd ac egwyddorion y Ddeddf a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, drwy:

a) cyflawni canlyniadau llesiant;
b) cydgynhyrchu â llais a rheolaeth yr unigolyn yn ganolog i gomisiynu ar gyfer canlyniadau llesiant sy'n canolbwyntio ar y 'person' neu'r 'claf';
c) cydweithio;
d) ymyrraeth gynnar ac atal; ac
e) cynllunio hirdymor, gan ychwanegu gwerth (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol).

Rhaid i bartneriaid statudol ddangos tystiolaeth bod comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yn cael ei gydgynhyrchu [ei gyd-ddylunio, ei gydgyflwyno a'i gydwerthuso] ag unigolion sydd angen gofal a chymorth, boed yn byw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau preswyl/lleoliadau a rennir, neu eu heiriolwyr a'u gofalwyr di-dâl.

Rhaid i bartneriaid statudol gydweithio a chydgomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, pan fo'n briodol gwneud hynny.

Dylai comisiynu ystyried yr angen am ofal a chymorth, yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, gan ddefnyddio asesiadau o anghenion y boblogaeth, cynlluniau ardal ar y cyd a chynlluniau / strategaethau comisiynu.

Safon 2: Sicrhau sgiliau, adnoddau a chapasiti digonol

Rhaid i bartneriaid statudol sicrhau bod ganddynt sgiliau a chapasiti comisiynu digonol i wneud y canlynol;

a) cyd-ddylunio, cynllunio, darparu / sicrhau, monitro a chydwerthuso gwasanaethau gyda darparwyr gofal a chymorth, pobl amrywiol sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth;
b) cefnogi gwelliant parhaus a datrys problemau ar y cyd â darparwyr gofal a chymorth a phartneriaid perthnasol eraill;
c) rhoi dulliau dylunio cyffredinol ar waith o ran manylebau gwasanaeth a gofynion perfformiad contractau.

Rhaid i bartneriaid statudol, wrth ymgymryd â'u gweithgarwch comisiynu, sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i feithrin gwydnwch cymunedol, gan fuddsoddi mewn grwpiau, gweithgareddau a gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y gymuned drwy;

a) cymorth ataliol – gwasanaethau cymorth sy'n aml yn cael eu darparu gan sefydliadau trydydd sector ag arbenigeddau penodol, gan gefnogi ystod o wasanaethau gwybodaeth a chyngor;
b) gwasanaethau gofal a chymorth – gwasanaethau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector sy'n diwallu anghenion gofal a chymorth ar lefelau canolig i uchel.

Rhaid i bartneriaid statudol weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth, a phan fo'n briodol alinio adnoddau neu ddefnyddio trefniadau cyllidebau cyfun.

Dylai partneriaid statudol gydbwyso'r angen i hybu arloesi a gweithredu'r hyn a ddysgir gan eraill am wasanaethau sy'n cyflawni canlyniadau da.

Safon 3: Defnyddio tystiolaeth a phrofiad i hyrwyddo canlyniadau llesiant

Rhaid i bartneriaid statudol goladu data meintiol perthnasol a chywir (gan gynnwys tueddiadau'r presennol a'r dyfodol), a thystiolaeth ansoddol (gan gynnwys profiadau bywyd presennol a blaenorol) i sicrhau bod comisiynu yn seiliedig ar dystiolaeth.

Dylai partneriaid statudol sicrhau bod digon o gapasiti a gallu dadansoddol i lywio gwaith cynllunio comisiynu cadarn. Dylai hyn hefyd ystyried nodweddion, gan gynnwys nodweddion gwarchodedig, anghenion diwylliannol ac anghenion o ran iaith, y bobl sydd angen gofal a chymorth a'r rhai a allai fod angen gofal a chymorth yn y dyfodol.

Rhaid i benderfyniadau ynghylch comisiynu ac adnoddau fod yn seiliedig ar dystiolaeth o:

a) asesiadau o anghenion y boblogaeth, gan gynnwys y galw a'r ddemograffeg a ragwelir yn y dyfodol;
b) canlyniadau a chyfraniadau gofynnol ar lefel gwasanaethau tuag at lesiant pobl[3] [4], gan gynnwys mynediad amserol a theg;
c) asesiad o'r adnoddau ariannol a dynol sydd eu hangen i sicrhau ansawdd, sefydlogrwydd a digonolrwydd cyflenwad / darpariaeth gofal a chymorth yn y dyfodol (adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad); a
d) asesiad o'r gwasanaethau fydd yn cyflawni orau'r canlyniadau sy'n bwysig i unigolion, dros amser (tystiolaeth o'r hyn sy'n cael ei werthfawrogi a'r hyn sy'n gweithio).

Rhaid i bartneriaid statudol rannu tystiolaeth o anghenion y boblogaeth leol a sefydlogrwydd y farchnad leol yn ogystal â digonolrwydd o ran darparwyr presennol a darparwyr posibl yn y dyfodol (gan gynnwys y rheini sydd y tu allan i wasanaethau gofal a chymorth) er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfranwyr posibl, gan gynhyrchu buddsoddiad mewn meysydd lle y mae bylchau wedi eu nodi.

Rhaid i bartneriaid statudol gasglu data yn ymwneud â chanlyniadau cenedlaethol, a pherfformiad, ac adrodd ar y data hyn, yn unol â'r gofynion adrodd presennol.

Rhaid i bartneriaid statudol adolygu asesiadau risg y farchnad leol a rhanbarthol yn rheolaidd a rhoi cynlluniau lliniaru risg ar waith.

Dylai partneriaid statudol archwilio sut y gellid cyfuno adnoddau comisiynu a dadansoddi drwy weithio drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dylent hefyd geisio sicrhau bod casglu data yn lleihau dyblygu ac yn cydymffurfio â'r gyfraith diogelu data.

Rhaid i bartneriaid statudol wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ynglŷn â'r mathau o wasanaethau a lefelau'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.

Safon 4: Comisiynu er mwyn sicrhau gwerth a budd i'r cyhoedd

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025[xxi] yn gwneud darpariaeth i gyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant (gwasanaethau cartrefi plant), gwasanaethau maethu a gwasanaethau llety diogel. Rhaid i bartneriaid statudol:

a) sicrhau bod dogfennaeth dendro, meini prawf dethol darparwyr ac amodau contractau yn cyd-fynd â'r fframwaith cyfreithiol newydd; a
b) sicrhau bod manylebau contractau yn ymgorffori gofynion y Ddeddf ynghylch statws darparwyr ac yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau ynghylch darparu gwasanaethau plant sy'n gwneud elw.

[3] Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau - Perfformiad a Gwella GIG Cymru
[4] Fframwaith canlyniadau cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol: adroddiad blynyddol 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU

Mae Deddf Caffael 2023 yn darparu opsiwn ar gyfer gweithdrefnau hyblyg cystadleuol, sy'n galluogi comisiynwyr i ddylunio proses gaffael wedi'i theilwra i'r gwasanaeth a'r farchnad.

Gall gweithdrefnau gynnwys dulliau cyd-ddylunio a chynnwys y rhai sy'n cael gofal a'u gofalwyr di-dâl mewn penderfyniadau ynghylch dyfarniadau, deialog a thrafodaethau â darparwyr yn ystod sawl cam i hyrwyddo profi dulliau arloesol.

Rhaid i bartneriaid statudol ymgysylltu â phobl sydd angen gwasanaethau drwy gydol eu gweithgareddau comisiynu a dylent gynnwys darparwyr pan fo hynny'n briodol.

Rhaid i bartneriaid statudol ddangos bod cynlluniau comisiynu a / neu gaffael yn seiliedig ar benderfyniadau ar sail tystiolaeth ynghylch y rheswm neu resymau dros ddewis:

a) darpariaeth uniongyrchol;
b) comisiynu sengl neu gydweithredol, gan gynnwys contractau cynghrair;
c) gweithdrefnau cystadleuol (tendro) gan gynnwys gweithdrefnau hyblyg cystadleuol, cytundebau fframwaith neu farchnadoedd deinamig;
d) dyfarniadau uniongyrchol ar gyfer contractau dewis defnyddiwr;
e) contractau cydfuddiannol neilltuedig
f) cymorth grant;
g) opsiynau eraill ar gyfer meithrin a sicrhau arloesi mewn gwasanaethau gofal a chymorth (caffael datrysiadau arloesol nad ydynt ar gael eto neu nad ydynt yn bodoli yn y farchnad).

Wrth gomisiynu o'r trydydd sector, dylai partneriaid statudol ystyried yr egwyddorion allweddol a'r canllawiau cysylltiedig a nodir yng Nghynllun y Trydydd Sector: cod ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector[xxii].

Mae canllawiau ar gael i gomisiynwyr a chyflenwyr ynghylch ceisiadau ar y cyd am gontractau[xxiii] cyhoeddus a chydweithio amlsector i wella llesiant cymunedol[xxiv]

Safon 5: Mesur gwerth

Rhaid i bartneriaid statudol fesur 'gwerth' yn gyson fel y cydbwysedd rhwng costau â'r budd cyffredinol i'r cyhoedd.

Dylai asesu manteision ddechrau ar adeg y caffael neu'r ymgysylltu, drwy reoli'r contract, a dylai fod yn seiliedig ar brofiadau a chymorth pobl i gyflawni canlyniadau personol o ran ansawdd bywyd, yn ogystal ag:

a) arfer eu hawliau (dylid ystyried a oes gan bobl â nodweddion gwarchodedig rwystrau ychwanegol o ran cael mynediad at wasanaethau, gwahanol brofiadau neu ganlyniadau; ac unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg);

b) safonau ansawdd a diogelwch (mae'r Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli[xxv] Perfformiad yn gosod gofynion ar gomisiynwyr i sicrhau cysondeb mewn perthynas â sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig);
c) cyfrifoldeb cymdeithasol (dylid ystyried a yw gwasanaethau yn gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, yn cefnogi'r economi sylfaenol, yn meithrin cadwyni cyflenwi lleol gwydn), a gwaith teg. Gall mesurau gynnwys buddsoddi mewn cyflogaeth leol, cyfleoedd hyfforddi, cyfranogiad cymunedol, a hyrwyddo'r Gymraeg.

Rhaid i weithgarwch caffael a rheoli ansawdd a pherfformiad gwasanaethau gofal a chymorth (y rhai a wneir o dan gontract a'r rhai a ddarperir yn uniongyrchol) wneud y canlynol:

a) canolbwyntio ar ganlyniadau (llesiant), diogelwch a chynaliadwyedd (mwyaf manteisiol / gwerth);
b) cael ei werthuso (mesur) yn ôl ei effaith economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol (diben) gan gynnwys egwyddorion gwaith teg; ac
c) ystyried cynaliadwyedd yng nghyd-destun gwerth y contract.

Darperir adnoddau ac enghreifftiau o arferion da yn y pecyn cymorth.

Safon 6: Cefnogi arferion gwaith teg a moesegol

Rhaid i bartneriaid statudol sicrhau bod yr holl wasanaethau gofal a chymorth yn cael eu comisiynu'n foesegol a'u bod yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg.

Dylai partneriaid statudol annog darparwyr i fabwysiadu ac addasu polisïau enghreifftiol Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol (Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol: Polisïau enghreifftiol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU)[xxvi] i wella statws, llesiant ac amodau gwaith ar draws y sector gofal cymdeithasol.

I gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol, dylai partneriaid statudol:

a) ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau ar gomisiynu a chontractau allanol sy'n effeithio ar y gweithlu;
b) cynnal a chyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar sail tystiolaeth sy'n asesu'r effaith y bydd penderfyniadau ar gomisiynu a chontractau allanol yn ei chael ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys gweithwyr ethnig leiafrifol;
c) monitro darparwyr i sicrhau bod y data gofynnol am y gweithlu ar gael;
d) ystyried ffyrdd y gellir defnyddio prosesau a dyletswyddau caffael presennol i wella cydymffurfedd â'u Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, er enghraifft, drwy ystyried sut y caiff materion cydraddoldeb eu hymgorffori yn y prosesau tendro a rheoli contractau; ac
e) datblygu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer ymarferion caffael arfaethedig sy'n ystyried yr effaith ar y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr â nodweddion gwarchodedig.

Mae canllawiau ynghylch ‘Gwaith Teg yn y sector gofal cymdeithasol: pecyn cymorth i gomisiynwyr’ wedi’u cynnwys yn y pecyn cymorth ar-lein.

Safon 7: Deall costau gofal

Rhaid i bartneriaid statudol ddangos eu bod yn deall costau llawn darpariaethau gofal a chymorth sy’n cydymffurfio ac o safon (gofal a cymorth a ddarperir yn uniongyrchol a gofal a chymorth a ddarperir o dan gontractau).

Rhaid i bartneriaid statudol a darparwyr gydweithio i ddeall costau teg a chynaliadwy darparu gofal a chymorth, er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch ffioedd; a rhaid iddynt sicrhau bod proses gyson a thryloyw ar gyfer cytuno ar ffioedd.

Dylai partneriaid statudol ystyried sut y gall eu diwydrwydd dyladwy cyn gwneud contractau ac ar ôl gwneud contractau a’u gofynion o ran contractau annog darparwyr i ymgysylltu a chyfrannu at asesiadau costau teg a thrafodaethau ynghylch prisiau.

Dylai partneriaid statudol nodi’r effeithiau o ran costau a’r gwahaniaethau rhwng darparwyr a modelau gwasanaeth o faint gwahanol, gan gynnwys gofal cymhleth iawn a gofal arbenigol, a diwallu anghenion poblogaeth sy’n sylweddol amrywiol.

Pan fo’n briodol, dylai partneriaid statudol gysoni a / neu gyfuno adnoddau (gan gynnwys cronfeydd ac adnoddau dynol) er mwyn galluogi cyflawni cynlluniau comisiynu ar y cyd yn effeithiol.

Pan fo’n briodol, dylai partneriaid statudol, drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol neu fecanweithiau lleol ar y cyd/integredig, archwilio manteision:

a) rhannu adnoddau ar draws unrhyw bartner / pob partner i roi cynlluniau ar waith i wella llesiant y boblogaeth, siapio’r ddarpariaeth leol o ofal a / neu wella ansawdd ac argaeledd gofal a chymorth;
b) partneriaethau ehangach, er enghraifft gyda meysydd fel tai, hamdden, llyfrgelloedd ac addysg, gofal sylfaenol a chanolfannau llesiant i hybu llesiant y boblogaeth gyfan, lleihau’r galw am ofal a chymorth a chynyddu’r cymorth cynnar i’r eithaf.

Rhaid i bartneriaid statudol gydasesu aeddfedrwydd eu trefniadau a’u perthnasoedd comisiynu integredig a chydweithredol a dylent nodi cyfleoedd i wella mewn meysydd allweddol.

Safon 8: Pennu ffioedd teg a chynaliadwy

Dylai partneriaid statudol ddefnyddio methodolegau neu feincnodau cost lleol, rhanbarthol a / neu genedlaethol, pan fônt ar gael, i bennu pris teg a chynaliadwy ar gyfer gofal a chymorth o safon. Mae methodolegau cyffredin yn helpu i ddadansoddi costau a datblygu achosion busnes ar gyfer treialu a phrofi dulliau gweithredu newydd ar gyfer darparu gwasanaethau.

Rhaid i bartneriaid statudol fod yn dryloyw ac yn gyson wrth drafod a chytuno ar gyfraddau ffioedd gan sicrhau eu bod yn asesu costau teg a chynaliadwy gofal a chymorth a sicrhau gwerth i'r cyhoedd.

Rhaid i bartneriaid statudol gadarnhau eu cyfraddau ffioedd i ddarparwyr yn brydlon cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

Dylai methodolegau ystyried ffactorau fel daearyddiaeth, cyd-destun sefydliadol, amodau'r farchnad ofal a'r farchnad lafur a pholisi gwaith teg (tâl, telerau ac amodau a fframweithiau dilyniant). Rhaid i weithdrefnau amrywio prisiau gynnwys mecanweithiau priodol o ran chwyddiant i gyd-fynd â chostau; mae hyn yn arbennig o bwysig o ran contractau amlflwyddyn a chytundebau cyllido.

Ni ddylai sefydlu methodolegau a meincnodau cyson dynnu oddi ar ddemocratiaeth leol a phenderfyniadau lleol ynghylch pennu prisiau. Dylai comisiynwyr ystyried effaith eu gweithgareddau comisiynu a chaffael ar ddigonolrwydd gofal a chymorth ac ar sefydlogrwydd y farchnad.

Safon 9: Rheolau Sefydlog ar gyfer Materion Ariannol a Chontractau

Rhaid i bartneriaid statudol barhau i adolygu Rheolau Sefydlog ar gyfer Materion Ariannol a Chontractau i wneud yn siŵr eu bod yn addas i'r diben i sicrhau gwasanaethau gofal a chymorth o'r safon a'r ystod sy'n ofynnol.

Rhaid i bartneriaid statudol sicrhau bod eu rheoliadau ariannol yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion penodol comisiynu a chaffael gwasanaethau gofal a chymorth.

Dylid diweddaru cytundebau a dogfennau llywodraethiant Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn unol â hynny, pan fo trefniadau comisiynu ar y cyd neu drefniadau comisiynu arweiniol ar waith.

Safon 10: Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae Cymru a'i phobl yn amrywiol eu natur, felly rhaid i weithgarwch comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth gydnabod a chroesawu cydraddoldeb er mwyn gwella canlyniadau i boblogaeth Cymru.

Rhaid i bartneriaid statudol roi sylw dyladwy i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau ym mhob cam o'r cylch comisiynu i sicrhau bod amrywiaeth a chydraddoldeb yn ganolog i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth.
Rhaid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer ymarferion comisiynu a chaffael.

Rhaid i bartneriaid statudol ystyried croestoriadedd wrth asesu angen, cynllunio gwasanaethau, llunio marchnadoedd, cynnal gweithgarwch caffael, a gwerthuso canlyniadau.
Mae hyn yn cynnwys cydnabod y gall pobl brofi ffurfiau lluosog sy'n gorgyffwrdd o fanteision, anfanteision, allgáu neu wahaniaethu na ellir eu deall drwy ystyried nodweddion gwarchodedig neu ffactorau eraill ar wahân. Dylai comisiynwyr ddefnyddio gwybodaeth am y boblogaeth ac ymgysylltu â chydgynhyrchu â nhw i nodi a mynd i'r afael â'r ffactorau croestoriadol hyn, gan sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth yn deg, yn ymatebol yn ddiwylliannol, yn ystyriol o drawma pan fo'n briodol, ac yn gallu diwallu anghenion amrywiol unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Rhaid i bartneriaid statudol weithio'n rhagweithiol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo'r gwaith o sicrhau hawliau dynol, a hynny drwy fodloni gofynion deddfwriaeth a chanllawiau, gan gynnwys:

a) Deddf Cydraddoldeb 2010[xxvii] a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010[xxviii] a rheoliad 18 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011[xxix];
b) Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd yn ymwneud ag Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021[xxx];
c) Deddf Hawliau Dynol 1998[xxxi];
d) Cymru sy'n Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Canllawiau Statudol[xxxii];
e) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[xxxiii], Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl[xxxiv], Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl[xxxv] Hŷn.

Wrth gomisiynu gwasanaethau sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd, a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial, rhaid i bartneriaid statudol wneud yn siŵr eu bod yn ystyried y canlynol:

a) Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)[5]
b) Y FFORDD GYWIR - Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – Fframwaith egwyddorol ac ymarferol o weithio gyda phlant, wedi'i seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yw Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant[xxxvi].

Rhaid i bartneriaid statudol weithredu yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth[xxxvii] [6].

Mae niwroamrywiaeth yn disgrifio'r ystod lawn o wahaniaethau niwrolegol o fewn y boblogaeth, ymhlith pobl niwronodweddiadol a phobl niwrowahanol.
Rhaid i bartneriaid statudol gydnabod y caiff llawer o bobl niwrowahanol [gan gynnwys pobl awtistig, pobl ag ADHD, neu syndrom Tourette] eu diogelu o dan y darpariaethau sy'n ymwneud ag anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

[5] Cod yn cael ei adolygu – dolen i'w hychwanegu pan gaiff ei weithredu
[6] Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ehangu'r Cod hwn iddo ddod yn God Ymarfer Niwrowahaniaeth.

Rhaid i bartneriaid statudol sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch heb rwystrau diangen, a'u bod yn cael eu darparu mewn ffyrdd sy'n cael gwared ar wahaniaethu, yn hyrwyddo cyfle cyfartal, yn ymgysylltu â phobl niwroamrywiol ac yn diwallu eu hanghenion drwy ddylunio gwasanaethau cynhwysol ac addasiadau rhesymol (yn seiliedig ar anghenion yn hytrach na diagnosis).
Comisiynu niwrogynhwysol yw ymgorffori egwyddorion niwrogynhwysol yn systemig yn y cylch comisiynu drwyddo draw, gan sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch, yn ymatebol ac yn deg i bobl niwrowahanol. Ymarfer niwrogynhwysol ddylai fod y ffordd ddiofyn o ran sut y caiff pob gwasanaeth ei gynllunio a'i ddarparu.

Dylai partneriaid statudol sicrhau eu bod yn ymarfer mewn modd niwrogynhwysol ac yn comisiynu gwasanaethau niwrogadarnhaol, drwy;

a) hyrwyddo dylunio amgylcheddau, systemau a chymorth ar gyfer pawb;
b) gwerthfawrogi profiadau bywyd presennol a blaenorol;
c) dileu'n rhagweithiol y rhwystrau rhag ymgysylltu â chydgynhyrchu gwasanaethau a chael gafael arnynt, yn hytrach na rhoi'r cyfrifoldeb ar unigolion i ymaddasu neu i ofyn am addasiadau rhesymol;
d) darparu hyfforddiant niwrowahaniaeth ar gyfer comisiynwyr, gan gynnwys y sgiliau i roi dulliau dylunio ar waith sy'n addas i bawb ac addasiadau rhesymol.

Bydd canllawiau pellach ar amgylcheddau niwrogynhwysol yn cael eu darparu yn y pecyn cymorth a thrwy wefan Niwrowahaniaeth Cymru[xxxviii].

Dylai partneriaid statudol hefyd roi sylw i'r Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch mewn Gofal[xxxix] Iechyd.
Mae'r safonau hyn wedi'u cyflwyno i helpu pobl ag anghenion cyfathrebu a gwybodaeth ychwanegol i gael gafael ar wasanaethau a chymorth – gan gynnwys pobl â dementia; pobl ag anableddau dysgu; pobl niwrowahanol; a phobl nad Saesneg neu Gymraeg yw eu hiaith gyntaf.

Dylai partneriaid statudol ystyried canllawiau Fframwaith Llywodraeth Cymru[xl] sy'n nodi'r disgwyliadau o ran lleihau arferion cyfyngol. Dylent hefyd ymgorffori yn eu trefniadau contractiol ofyniad y bydd y disgwyliadau a nodir yn y Fframwaith hwn yn cael eu bodloni gan y rhai sy'n cael eu comisiynu i ddarparu gofal a chymorth.

Rhaid i gomisiynwyr sicrhau eu bod yn ystyried y canlynol wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth:

a) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru[xli];
b) Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar Brofiadau o iechyd a gofal cymdeithasol: triniaeth gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is[xlii];
c) Adroddiad y Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid: Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: disgwyliadau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol[xliii];
d) Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Dull Cymdeithasol o Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd[xliv].

Dylai partneriaid statudol ystyried sut y gall gweithgarwch comisiynu helpu i leihau anghydraddoldebau sy'n wynebu cymunedau ethnig lleiafrifol, gan gynnwys drwy fynd i'r afael â gwrthsemitiaeth, Islamoffobia a rhagfarn yn erbyn Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Dylai partneriaid statudol geisio dod o hyd i ffyrdd y gellir estyn eu dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol i ddarparwyr drwy gontractau a manylebau gwasanaethau.
Er mwyn sicrhau cysondeb cenedlaethol, datblygwyd cymalau contract arfaethedig a dylai comisiynwyr ddefnyddio'r rhain yn eu contractau gyda darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi llunio canllawiau ar gyfer comisiynwyr yng Nghymru[xlv].
Darperir y canllawiau hyn ac adnoddau pellach yn y pecyn cymorth.

Defnyddio data i gefnogi'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau

Darparu data am y gweithlu i Gofal Cymdeithasol Cymru

1.53. O 2026 ymlaen, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i gyfuno'r ddau ymarfer casglu data sydd ganddynt ar waith i un broses symlach ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol.
Rhaid i bartneriaid statudol annog eu darparwyr yn rhagweithiol i gwblhau a dychwelyd data am y gweithlu.

Mae cael set ddata genedlaethol gywir a chyfredol sy'n ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cefnogi'r gwaith o gynllunio gweithlu cadarn ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Prosiect Cartrefi Gofal Cymru

1.54. Mae Prosiect Cartrefi Gofal Cymru yn hwb gwybodaeth ar-lein sydd wedi'i gysylltu â chyfeirlyfr iechyd a llesiant Dewis Cymru.
Gall darparwyr cartrefi gofal i oedolion gofnodi gwybodaeth yn ymwneud â nifer y gwelyau a nifer y lleoedd gwag yn eu gwasanaethau, sydd wedyn yn cyfrannu'n awtomatig at ddangosfyrddau a'r wefan sydd ar gyfer y cyhoedd [Cartrefi Gofal.Cymru][xlvi] gan helpu unigolion a theuluoedd sy'n ymchwilio i opsiynau o ran cartrefi gofal i oedolion.

Defnyddir yr wybodaeth hon i lywio setiau data cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, felly, dylai partneriaid statudol ddefnyddio eu cytundebau contractau i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddefnyddio Prosiect Cartrefi Gofal Cymru a sicrhau bod eu gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys ynddo wedi'i diweddaru.

Cynhwysiant a Hygyrchedd Digidol

1.55. Rhaid i bartneriaid statudol weithio gyda darparwyr i annog a chefnogi eu defnydd o ddatrysiadau digidol pan fo dulliau digidol yn gwella canlyniadau heb eithrio pobl, yn ogystal â sicrhau bod gan y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau fynediad at y rhyngrwyd a dyfeisiau digidol yn ôl yr angen. Pan fo datrysiadau digidol yn cael eu nodi, dylai contractau ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod gan eu staff sgiliau digidol sylfaenol i helpu pobl i wneud defnydd effeithiol o'r datrysiadau digidol.

Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol

1.56. Dylai partneriaid statudol ystyried uchelgais y strategaeth 10 mlynedd, sef y Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol[xlvii] a'r egwyddorion yn y cynlluniau cyflawni[xlviii].
Gan fod argaeledd a sgiliau y gweithlu yn elfen hanfodol o ansawdd gwasanaethau a sefydlogrwydd y farchnad, dylai partneriaid statudol weithio gyda rhanddeiliaid i gynnal gwaith cynllunio gweithlu cadarn, wedi'i lywio gan asesiad o'r materion a ganlyn:

a) y cyflenwad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o ran y gweithlu;
b) heriau recriwtio a chadw gweithwyr;
c) amrywiaeth y gweithlu a gallu o ran y Gymraeg;
d) sgiliau a chymwysterau;
e) risgiau yn ymwneud ag arweinyddiaeth ac olyniaeth; ac
f) effaith penderfyniadau comisiynu ar ganlyniadau'r gweithlu.

1.57. Dylai partneriaid statudol ddefnyddio mecanweithiau contractau a phartneriaethau priodol i annog darparwyr i ddefnyddio'r porth Gofalwn.Cymru[xlix] i hysbysebu swyddi gwag yn eu sefydliadau.

Cefnogi'r Cyflog Byw Gwirioneddol

1.58. Wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, rhaid i gomisiynwyr roi sylw i holl ganllawiau Llywodraeth Cymru[l] sy'n ymwneud â gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gan gynnwys egwyddorion gwaith teg.

1.59. Dylai comisiynwyr geisio sicrwydd bod darparwyr sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth a ariennir yn gyhoeddus yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr cymwys yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Dylai trefniadau caffael, contractio a monitro gynnwys mecanweithiau cymesur i ddarparwyr adrodd gwybodaeth am gyflogau'r gweithlu, gan alluogi comisiynwyr i ddeall graddau'r gwaith gweithredu ar draws y sector.

Pan nad yw darparwyr yn gallu dangos eu bod yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, dylai comisiynwyr gydweithio â nhw i ddeall y rhwystrau, asesu unrhyw risgiau i gynaliadwyedd y gweithlu ac annog cynnydd tuag at gyflawni'r ymrwymiad.

Y Gymraeg

1.60. Mae cryn dystiolaeth o bwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn newis iaith pobl. Mae iaith yn elfen hanfodol i bobl o ran diwallu eu hanghenion gofal a chymorth, sicrhau hawliau a hawlogaethau a gallu defnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu a chymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid cyfartal.

1.61. Rhaid i ddarpariaeth gwasanaethau gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn hawl ac yn fater o angen a rheidrwydd, nid dewis.
Rhaid i bartneriaid statudol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a rhaid iddynt geisio darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn llawn yn eu bywyd bob dydd.
Rhaid i bartneriaid statudol gymryd pob cam rhesymol i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth Cymraeg lleol / cymunedol a rhaid i ddigonolrwydd gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg gael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol.

1.62. Rhaid i bartneriaid statudol hefyd gydymffurfio â'r dyletswyddau a'r rhwymedigaethau o ran y Gymraeg sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth, codau ymarfer a chanllawiau statudol a ddyroddwyd, yn ogystal ag ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol eraill.

1.63. Dylai partneriaid statudol sicrhau bod eu hasesiadau o anghenion y boblogaeth yn canfod ystod a lefel y gwasanaethau y bydd yn ofynnol eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys pennu unrhyw fylchau cyfredol yn y ddarpariaeth a nodi'r camau a gymerir i gynyddu ystod a lefel y gwasanaethau y mae'n ofynnol eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mwy na Geiriau

1.64. Mwy na Geiriau[li] yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ei nod yw gwreiddio'r Gymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol fel y gall pobl gael y gofal y maent yn ei haeddu a'i angen, a helpu siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf. Bydd mabwysiadu a darparu'r Cynnig Rhagweithiol, sef un o egwyddorion craidd Mwy na Geiriau, yn helpu i wella safon y gofal i bobl yng Nghymru. Mae hyn oherwydd bod iaith unigolyn yn sylfaenol i ddarparu gofal diogel a theg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

1.65. Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn un o elfennau craidd y fframwaith a'i ystyr, yn syml, yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.

1.66. Rhaid i bartneriaid statudol sicrhau cydymffurfedd â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011[lii] wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth a sicrhau eu bod yn arfer y 'Cynnig Rhagweithiol', gan gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na bod rhaid i bobl ofyn am hynny.

1.67. Cydnabyddir y gall fod yn heriol i rai darparwyr fodloni'r Cynnig Rhagweithiol; fodd bynnag, rhaid i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaeth fynd ati'n rhagweithiol i gefnogi'r gweithlu i gyfathrebu yn Gymraeg beth bynnag yw lefel y Gymraeg sydd ganddynt, ac annog y gweithlu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Gall staff arddangos bathodynnau neu landiardiau Iaith Gwaith neu Dysgu Cymraeg i ddangos pan fo rhywun yn gallu siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg.

1.68. Mae cynllunio'r gweithlu yn allweddol i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol a gwreiddio ffocws ar y Gymraeg ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
O ran cefnogi'r Gymraeg, mae angen i gontractau sicrhau bod gan ddarparwyr gofal a chymorth drefniadau staffio priodol a digonol ar waith.

1.69. Mae'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael yn cynnwys:

a) Cynllun Dysgu Cymraeg y Ganolfan Genedlaethol, a gefnogir gan diwtoriaid, ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal; Mae hyn yn cynnwys cyrsiau blasu / croeso i bobl sy'n awyddus i ddysgu ychydig o eiriau Cymraeg, a chwrs codi hyder i'r rhai sy'n awyddus i ddatblygu'u hyder; Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd wedi datblygu adnoddau pwrpasol i weithwyr sy'n helpu pobl â dementia; gweithwyr sy'n helpu pobl niwroamrywiol; a gweithwyr sy'n gweithio ym maes gofal lliniarol a gofal diwedd oes;
b) Cynllun Camau Gofal Cymdeithasol;
c) Helo Blod ar gyfer busnesau, elusennau neu sefydliadau cymunedol sydd angen gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg a chyngor ynghylch y Gymraeg;
d) Canllawiau Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ynghylch Cynllunio'r Gweithlu a'r Gymraeg;
e) Gall Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer busnesau ac elusennau helpu cyrff i roi cynlluniau ymarferol ar waith a'u cyfeirio at gymorth sy'n rhad ac am ddim. Mae'n bosibl y bydd sefydliadau a gomisiynir hefyd yn dymuno mabwysiadu'r Cynnig Cymraeg i ddangos sut y maent yn darparu gwasanaethau Cynnig Cymraeg.

1.70. Dylai comisiynwyr ddefnyddio'r cymalau contract cenedlaethol, sydd ar gael yn y pecyn cymorth, yn eu contractau gyda darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth. Nod y rhain yw sicrhau cysondeb cenedlaethol.

Cefnogi'r amgylchedd ac ystyriaethau o ran cynaliadwyedd

1.71. Mae'r argyfwng hinsawdd yn her sy'n gofyn am weithredu ar frys ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Yng Nghymru, daw'r ddyletswydd statudol i weithredu o dri phrif ddarn o ddeddfwriaeth:

a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), sy'n cyflwyno fframwaith cynhwysfawr ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru;

b) Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu fframwaith statudol ar gyfer rheoli adnoddau yn gynaliadwy a gweithredu yn erbyn newid hinsawdd yng Nghymru, gan gynnwys cyllidebau carbon sy'n rhwymol yn gyfreithiol a'r targed o gyflawni sefyllfa Sero Net erbyn 2050;
c) Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026.

1.72. Mae Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol yng Nghymru[liii] yn darparu'r trywydd o ran datgarboneiddio ar gyfer partneriaid statudol a darparwyr allanol gwasanaethau gofal a chymorth. Rhaid i bartneriaid statudol:

a) Parhau i weithio tuag at ddeall maint y broblem o ran allyriadau carbon o fewn gwasanaethau gofal a chymorth;
b) Nodi sut y gellir lleihau allyriadau carbon drwy weithgarwch comisiynu;
c) Amlinellu (mewn adroddiadau cynaliadwyedd y farchnad) y mesurau y mae eu hangen i ddarparu gofal a chymorth fforddiadwy o ansawdd uchel heb allyriadau carbon;
d) Rhoi camau datgarboneiddio ar waith.

1.73. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024[liv] yn darparu cyfeiriad ar gyfer y camau gweithredu y mae eu hangen ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol i ddeall a lliniaru'r risgiau i iechyd y cyhoedd, ac i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn sgil newid hinsawdd (Cynllunio Addasu). Mae'r strategaeth yn cyd-fynd ag adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, A Well-Adapted UK[lv], sy'n nodi nad yw'r sector gofal cymdeithasol yn barod am y risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a bod angen lledaenu canllawiau ynghylch risgiau newid hinsawdd i weithwyr rheng flaen.

Rhaid i Bartneriaid Statudol ystyried y risgiau o ran newid hinsawdd wrth gynllunio, comisiynu a darparu gofal cymdeithasol, drwy:
a) Gweithio gyda darparwyr gofal a gomisiynir i nodi a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a'u cyfeirio at ganllawiau'r Prif Swyddog Meddygol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru;
b) Sicrhau bod darparwyr gofal dan gontract yn datblygu Cynlluniau Ymateb i'r Hinsawdd a'u gweithredu a chynnal gwaith cynllunio addasu. Rhaid i gynlluniau fanylu ar gyfleoedd a chamau gweithredu rhagddyfalus a rhagweithiol i wneud adeiladau iechyd a gofal cymdeithasol presennol yn fwy gwydn i effeithiau newid hinsawdd, yn arbennig gwres llethol, a risgiau eraill sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd fel stormydd a llifogydd, a sicrhau bod adeiladau newydd wedi'u dylunio i ymdrin â heriau newid hinsawdd yn y dyfodol;
c) Sicrhau bod gan ddarparwyr gofal a gomisiynir gynlluniau a threfniadau parhad busnes effeithiol ar waith, gan gynnwys camau gweithredu ynghylch llesiant y gweithlu i sicrhau gwydnwch rhag heriau newid hinsawdd yn y dyfodol. Rhaid i hyn gynnwys sut y bydd gwasanaethau yn cynllunio ar gyfer achosion o darfu sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, sut y byddant yn ymateb i achosion o'r fath ac adfer ohonynt, gan gynnwys risgiau i adeiladau, cyfarpar, trafnidiaeth, lefelau staffio, meddyginiaethau, bwyd, cyfleustodau a systemau digidol.

Rhaid i bartneriaid statudol gyhoeddi eu Cynlluniau Ymateb i'r Hinsawdd eu hunain a dangos sut y mae ystyriaethau o ran newid hinsawdd yn cael eu hymgorffori ar draws cadwyni cyflenwi:

a) Dylai Cynlluniau Ymateb i'r Hinsawdd fanylu ar sut y bydd caffael gofal a chymorth yn cyfrannu at feysydd blaenoriaeth yn ymwneud â lleihau allyriadau a gwastraff;
b) Dylid defnyddio gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy priodol (gan gynnwys caffael pan y'i cynhelir) i asesu cyflawniadau cynaliadwyedd darparwyr gofal a chymorth annibynnol a'u gwydnwch rhag newid hinsawdd;
c) Dylai dogfennaeth o ran caffael a chontractau ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr nodi trefniadau addasu a pharhad busnes cymesur.

1.74. Yn unol â Chyllideb Carbon Sero Net Cymru (2021 i 2025), dylai pob awdurdod lleol gynnal asesiad ac arfarniad blynyddol o allyriadau carbon. Dylent ddefnyddio'r egwyddorion ar gyfer cyfrifyddu carbon ac adrodd arno yng Nghanllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net:
a) Dylai awdurdodau lleol gasglu data allyriadau carbon gan ddarparwyr gwasanaeth dan gontract a chynnwys y data hyn yn eu dogfennau cyfrifyddu ac adrodd ar garbon;
b) Dylai trefniadau monitro a rheoli contractau hefyd hybu sicrwydd bod gwasanaethau a gomisiynir yn nodi ac yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, gan gynnwys gwres llethol, a bod ganddynt drefniadau addasu a pharhad busnes priodol ar waith.

Cymorth a gwasanaethau i ofalwyr di-dâl

1.75. Fel unigolion, mae gan ofalwyr di-dâl hawliau annibynnol i gael asesiad a chael cymorth. Rhaid i awdurdodau lleol nodi gofalwyr di-dâl, asesu eu hanghenion cymorth, darparu gwybodaeth a chyngor, a phan fo anghenion cymwys yn dod i'r amlwg, sicrhau bod cymorth priodol ar gael i hyrwyddo llesiant gofalwyr a'u galluogi i barhau â'u rôl ofalu.
Mae'r dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol wedi'u hamlinellu yn y Ddeddf ac wedi'u cynnwys yn y Codau Ymarfer ar Asesu Anghenion Gofal a Chymorth Unigolion ac ar Ddiwallu Anghenion Gofal a Chymorth Pobl.

1.76. Mae gofalwyr di-dâl yn bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol wrth gynnal gweithgareddau yn ymwneud â chomisiynu, adolygu gwasanaethau a gwella ansawdd.
Wrth gynnal Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, rhaid ystyried anghenion gofalwyr di-dâl am gymorth, a rhaid defnyddio'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau yn ymwneud â chynllunio, comisiynu, datblygu gwasanaethau a buddsoddi.
Mae adnoddau ar gael yn y pecyn cymorth i helpu comisiynwyr pan fyddant yn comisiynu cymorth i ofalwyr di-dâl, yn unol â'r dyletswyddau o dan y Ddeddf.
Mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys Siarter Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl [lvi] sy'n nodi hawliau cyfreithiol gofalwyr di-dâl.

Gwasanaethau i Blant

1.77. Dylai gwasanaethau i blant ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal fel y gellir diwallu anghenion yn gynnar ym mywyd plentyn a chyn i anghenion waethygu.
Rhaid i bartneriaid statudol asesu anghenion eu poblogaeth a gweithio gyda darparwyr i ddatblygu a darparu llwybrau priodol at gymorth a gwasanaethau.
Dylai partneriaid statudol ddefnyddio'r Fframwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal[lvii] i feincnodi a gwella eu cynnig o gymorth i fabanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd, gan dargedu cymorth yn y lle iawn ar yr adeg iawn.

1.78. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i drawsnewid gofal cymdeithasol plant a dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ("Deddf 2025") yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol i gefnogi'r newid hwn ac i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu system gofal sy'n canolbwyntio ar lesiant a chanlyniadau plant.

1.79. Mae angen gwasanaethau gofal a chymorth ar blant a phobl ifanc sy'n eu galluogi i dyfu, datblygu a ffynnu. Cydnabyddir yn eang bod hyn fel arfer yn golygu bod angen iddynt fod yn agos at eu teuluoedd a'u cymunedau ac mae hyn yn nodwedd allweddol o'r polisi dileu elw.
Yn rhan o'r broses gomisiynu, rhaid i bartneriaid statudol ystyried ffyrdd o letya a gofalu am blant a phobl ifanc yn nes at eu cartref yn amlach, fel y gallant barhau i fod yn rhan o'u cymuned a chynnal eu rhwydweithiau cymorth, mewn trefniadau byw lleol sydd wedi'u dylunio'n lleol ac sy'n atebol yn lleol.

1.80. Rhaid i drefniadau comisiynu ategu'r gwaith o ddatblygu darpariaeth nid-er-elw ddigonol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Rhaid iddynt hefyd gael eu llywio gan gynlluniau digonolrwydd blynyddol awdurdodau lleol, yn unol â Deddf 2025[lviii].

Diogelu

1.81. Rhaid i bartneriaid statudol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yn hybu ac yn amddiffyn llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

1.82. Mae gan bartneriaid statudol ddyletswydd o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004[lix] i sicrhau bod unrhyw wasanaethau a ddarperir ar eu rhan, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn rhoi sylw i'r angen i ddiogelu a hybu lles plant.

1.83. Mae Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[lx] yn sefydlu'r fframwaith diogelu statudol ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg, gan gynnwys dyletswyddau sy'n ymwneud â rhoi gwybod am bryderon am gam-drin, esgeulustod neu niwed.

Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

1.84. Dylai trefniadau comisiynu, monitro contractau a darparu gwasanaethau wreiddio yn eu prosesau a'u gwaith goruchwylio, y gofyniad i sicrhau bod systemau cadarn ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod polisïau diogelu ar waith, sicrhau bod staff wedi cael hyfforddiant diogelu, a sicrhau bod llwybr clir o ran trefniadau adrodd ac uwchgyfeirio.

1.85. Wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, rhaid i bartneriaid statudol gyfeirio at ddeddfwriaeth, codau ymarfer, canllawiau a gweithdrefnau diogelu, a rhoi sylw iddynt, i sicrhau bod materion diogelu yn cael eu hystyried yn llawn:

a) Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: canllawiau statudol.[lxi]
b) Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
c) Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg[lxii]
d) Diogelu oedolion sy'n wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod[lxiii]
e) Lleihau arferion cyfyngol ar blant ac oedolion[lxiv]

1.86. Dylai partneriaid statudol ddefnyddio gweithdrefnau rheoli a monitro contractau i sicrhau bod darparwyr a gomisiynir yn darparu tystiolaeth o bolisïau, hyfforddiant, goruchwyliaeth, llwybrau adrodd a threfniadau uwchgyfeirio priodol o ran diogelu, yn unol â:

a) Gweithdrefnau Diogelu Cymru[lxv]; a
b) Y safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol[lxvi].

Fframwaith NYTH

1.87. Nod Fframwaith NYTH[lxvii] yw hybu dull gweithredu 'system gyfan' ar gyfer gwella iechyd meddwl a llesiant babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ledled Cymru. Mae'n hyrwyddo gwasanaethau a chymorth sy'n meithrin, yn grymuso, yn ddiogel ac yn rhai y gellir ymddiried ynddynt, wedi'u hategu gan gydgynhyrchu, ymyrraeth gynnar, tegwch a chydweithio ar draws sectorau a gwasanaethau.

1.88. Wedi'i ddatblygu a'i gydgynhyrchu yn dilyn gweithgarwch ymgysylltu helaeth ag ystod eang o randdeiliaid, caiff fframwaith NYTH ei roi ar waith ar draws sectorau.

1.89. O ystyried pwysigrwydd egwyddorion NYTH, dylai comisiynwyr roi sylw i'r fframwaith wrth gynllunio, comisiynu ac adolygu gwasanaethau i hybu dull gweithredu system gyfan, wedi'i gydgynhychu a "Dim Drws Anghywir". Dylai darparwyr gwasanaeth hefyd ddangos dealltwriaeth o'r fframwaith ac adlewyrchu ei egwyddorion wrth ddarparu gwasanaethau a gomisiynwyd.

1.90. Er mwyn cefnogi comisiynwyr a gwasanaethau i roi fframwaith NYTH ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi creu adnodd hunanasesu[lxviii] a hyfforddiant rhagarweiniol[lxix]. Dylai comisiynwyr fod yn ymwybodol o'r adnoddau hyn a sicrhau bod cyrff, sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynwyd, yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i roi fframwaith NYTH ar waith.

1.91. Dylai comisiynwyr sicrhau bod manylebau gwasanaethau dan gontract a gwasanaethau a ddarperir yn adlewyrchu tystiolaeth o gydgynhyrchu.

1.92. Ochr yn ochr â NYTH, dylai partneriaid statudol ystyried y fframwaith cenedlaethol ar ymarfer amlasiantaethol ar gyfer gwasanaethau plant[lxx] sy'n ceisio cryfhau ymarfer amlasiantaethol ledled Cymru drwy ddarparu cyfrwng i ddwyn arferion da ynghyd ac annog ffyrdd gwell o weithio'n fwy cyson. Bydd dull gweithredu cydweithredol o'r cychwyn cyntaf yn sicrhau gwaith cyflawni ar draws asiantaethau, yn hyrwyddo canlyniadau a rennir, atebolrwydd a mwy o hyblygrwydd ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae'r fframwaith hwn wedi'i ddatblygu ar gyfer gwasanaethau plant yn bennaf, ond gellir ei addasu i'w ddefnyddio mewn unrhyw sefydliad sy'n gweithio gyda phlant.

Rhestr termau

Term	Diffiniad
Gofal a Chymorth	Mae i'r term 'gofal a chymorth' yr un ystyr ag sydd iddo yn adran 4 o'r Ddeddf: "4. Ystyr 'gofal a chymorth' Mae unrhyw gyfeiriad at ofal a chymorth yn y Ddeddf hon i'w ddehongli fel cyfeiriad at— (a) gofal; (b) cymorth; (c) gofal a chymorth." Mae adran 34 o'r Ddeddf (Sut i ddiwallu anghenion) yn nodi enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu i ddiwallu anghenion person am 'ofal a chymorth'.
Gofalwr / gofalwr di-dâl	Yn y Cod hwn, mae person yn ofalwr os yw'n bodloni'r diffiniad o 'gofalwr' yn adran 3 o'r Ddeddf. Fel rheol, mae gofalwr yn aelod o'r teulu neu'n ffrind sy'n darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl. At ddibenion polisi, mae Llywodraeth Cymru yn ffafrio'r term 'gofalwr di-dâl' i wahaniaethu rhyngddyn nhw a gweithwyr gofal sy'n cael tâl. Mae'n bwysig nodi, at ddibenion y Ddeddf, nad yw person yn ofalwr os yw'n darparu gofal o dan gontract neu yn rhinwedd contract, neu fel gwaith gwirfoddol. Dylid nodi hefyd, fodd bynnag, fod gan awdurdod lleol, o dan adran 3(8) o'r Ddeddf, ddisgresiwn i drin person fel gofalwr at ddibenion unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan y Ddeddf os yw'r awdurdod o'r farn bod natur y berthynas rhwng y person sy'n darparu (neu'n bwriadu darparu) gofal a'r person y mae'r gofal hwnnw yn cael ei ddarparu (neu i'w ddarparu) iddo yn golygu y byddai'n briodol i'r cyntaf gael ei drin fel gofalwr at ddibenion y swyddogaeth honno neu'r swyddogaethau hynny.
Clwstwr/Clystyrau	Mae clwstwr, y cyfeirir ato weithiau fel 'clystyrau gofal sylfaenol', yn dwyn ynghyd yr holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ar draws ardal ddaearyddol, fel arfer yn gwasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000 o bobl. Mae clystyrau yn anelu at hyrwyddo cydweithio rhwng meddygfeydd, fferyllfeydd, practisau deintyddol ac optometryddion, ac integreiddio gwasanaethau gofal sylfaenol â phartneriaid allweddol fel Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, awdurdodau lleol a'r Trydydd Sector.

Term	Diffiniad
	Mae'r term 'clystyrau cyfan' (neu 'lefel clystyrau cyfan') yn cyfeirio at ddod â chlystyrau at ei gilydd yn ôl patrwm awdurdod lleol.
Comisiynydd	Y person, yr unigolyn neu'r tîm sy'n cyflawni swyddogaethau comisiynu ar ran y partner statudol.
Aeddfedrwydd comisiynu	Mae aeddfedrwydd comisiynu yn disgrifio pa mor dda y mae sefydliad yn cynllunio, yn cyflawni ac yn gwella gweithgarwch comisiynu. Mae dull gweithredu comisiynu aeddfed yn strategol, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gydweithredol ac yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau gwell i bobl a chymunedau.
Gofal Iechyd Parhaus y GIG	Pecyn cyflawn o ofal parhaus yw Gofal Iechyd Parhaus y GIG a gaiff ei drefnu a'i ariannu'n gyfan gwbl gan y GIG drwy fyrddau iechyd lleol, pan asesir bod angen sylfaenol yr unigolyn yn ymwneud â'i iechyd.
Cynhwysiant digidol	Mae cynhwysiant digidol yn golygu galluogi'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r dyfeisiau, y cysylltedd, y sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu â gwasanaethau digidol yn ddiogel ac yn hyderus. Ym maes gofal cymdeithasol, mae hyn yn hybu mynediad cyfartal at wybodaeth, cyngor, gofal a chymorth, gan helpu i sicrhau na chaiff neb ei roi o dan anfantais, a bod unigolion yn gallu elwa ar wasanaethau digidol a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas.
Cydgynhyrchu	Mae cydgynhyrchu yn ymwneud â gweithio gyda phobl, nid gwneud pethau drostynt neu ar eu cyfer, drwy rannu pŵer, cydnabod cryfderau pawb, a gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd.
Gofal / gwasanaethau iechyd	Mae i'r term 'gofal iechyd' yr un ystyr ag sydd iddo yn adran 17(9) o Ddeddf 2006 sy'n darparu mai ystyr 'gofal iechyd' yw: (a) gwasanaethau sy'n cael eu darparu i unigolion ar gyfer neu mewn cysylltiad ag atal, canfod neu drin salwch; a (b) hybu ac amddiffyn iechyd y cyhoedd.
Croestoriadedd	Mae croestoriadedd yn cydnabod y gall pobl brofi mantais neu anfantais mewn gwahanol ffyrdd oherwydd y cyfuniad o'u hunaniaethau a'u hamgylchiadau, megis oedran, anabledd, ethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, crefydd neu dlodi.
Arweinwyr	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn awdurdod lleol a'r Cyfarwyddwr cyfatebol yn y GIG sydd â chyfrifoldebau dros gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth.
Niwrowahaniaeth	Mae'r term 'niwrowahaniaeth' yn cyfeirio at yr amrywiad naturiol yn y ffordd y mae pobl yn meddwl, yn dysgu, yn cyfathrebu, yn prosesu, yn rhyngweithio ac yn profi'r byd. Mae'n ffaith fiolegol. Os yw rhywun yn niwrowahanol, mae ganddo feddwl sy'n wahanol i feddwl sy'n gweithio mewn ffordd sydd fwyaf cyffredin (neu niwronodweddiadol).

Term	Diffiniad
	Nid yw niwrowahaniaeth yn ddiffyg; mae'n ffordd wahanol o fod. Mae'r amrywiaeth hon a'r gwahaniaethau hyn yn rhan angenrheidiol a gwerthfawr o gymdeithas weithredol. Mae rhagor o wybodaeth am ddiffiniadau ar gael ar wefan Niwrowahaniaeth Cymru.
Comisiynu niwrogynhwysol	Ystyr 'comisiynu niwrogynhwysol' yw comisiynu gwasanaethau sy'n parchu hunaniaethau niwrowahanol, yn dileu rhwystrau, yn hyrwyddo cynhwysiant a llesiant, ac yn cael eu cydgynllunio gyda phobl niwrowahanol yn hytrach na cheisio eu normaleiddio.
Gwasanaethau niwrogynhwysol	Mae gwasanaethau niwrogynhwysol yn seiliedig ar gryfderau a chânt eu cydgynhyrchu. Maent yn cynnig hawl rhagweithiol i addasiadau rhesymol, yn dileu rhwystrau, yn hyrwyddo cynhwysiant a chyfranogiad, ac maent wedi'u cynllunio o amgylch anghenion, cryfderau, dewisiadau ac iaith unigolion.
Y farchnad	Y farchnad ofal yw'r ystod o sefydliadau, busnesau, grwpiau cymunedol ac unigolion sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth i bobl. Mae'n cynnwys cartrefi gofal preswyl, asiantaethau gofal cartref, darparwyr byw â chymorth, cynorthwywyr personol, mudiadau gwirfoddol, microfentrau a chymorth yn y gymuned.
Siapio'r farchnad	Siapio'r farchnad yw'r broses barhaus o ddeall anghenion pobl, ymgysylltu â chymunedau a darparwyr, a dylanwadu ar y ffordd y mae gwasanaethau gofal a chymorth yn datblygu fel y gall pobl gael y cymorth iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn. Dyma sut y mae comisiynwyr yn sicrhau bod digon o ofal a chymorth o ansawdd da ar gael, yn awr ac yn y dyfodol.
Comisiynu yn seiliedig ar ganlyniadau	Mae comisiynu yn seiliedig ar ganlyniadau yn canolbwyntio ar sut y mae gofal a chymorth yn helpu i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl, yn hytrach na phrynu unedau (er enghraifft, munudau neu ddyddiau) o wasanaeth neu weithgareddau (tasgau). Mae'n ymwneud â gweithio gyda phobl a chymunedau i benderfynu sut beth fyddai llwyddiant, yna dylunio, prynu a monitro cymorth yn seiliedig ar y gwahaniaeth y mae'n ei wneud ym mywydau pobl.
Darparwr / Darparwr gwasanaeth	Cwmni / sefydliad / person sy'n darparu gwasanaethau i awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd lleol.
Gwerth i'r cyhoedd	Gwerth i'r cyhoedd yw'r budd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach a sicrheir i unigolion, cymunedau a Chymru drwy wariant cyhoeddus, comisiynu a chaffael - gan gyfrannu at lesiant, gwaith atal, tegwch,

Term	Diffiniad
	cynaliadwyedd a gwydnwch cymunedol, y tu hwnt i'r gwaith uniongyrchol o ddarparu'r gwasanaeth dan gontract.
Partneriaid statudol	Gyda'i gilydd, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru sydd â'r un ystyr ag sydd iddynt yn adran 197 o'r Ddeddf.

Atodiad: Hyperddolenni a chyfeiriadau

[i] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh

[ii] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/42/contents/enacted

[iii] https://www.llyw.cymru/swyddogaethau-gofal-cymdeithasol-cyffredinol-awdurdodau-lleol-cod-ymarfer

[iv] https://www.llyw.cymru/diwallu-anghenion-gofal-chymorth-pobl-cod-ymarfer

[v] https://www.llyw.cymru/trefniadau-partneriaeth-ar-gyfer-darparu-gofal-chymorth-canllawiau

[vi] https://www.llyw.cymru/adroddiadau-sefydlogrwydd-y-farchnad-cod-ymarfer

[vii] https://www.legislation.gov.uk/cy

[viii] https://www.llyw.cymru/codau-ymarfer-y-gwasanaethau-cymdeithasol

[ix] https://www.llyw.cymru/swyddogaethau-gofal-cymdeithasol-cyffredinol-awdurdodau-lleol-cod-ymarfer

[x] https://www.llyw.cymru/trefniadau-partneriaeth-ar-gyfer-darparu-gofal-chymorth-canllawiau

[xi] https://www.llyw.cymru/adroddiadau-sefydlogrwydd-y-farchnad-cod-ymarfer-html

[xii] https://communities.socialcare.wales/cy/

[xiii] https://www.llyw.cymru/rol-cyfarwyddwr-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer

[xiv] https://collaboratecic.com/wp-content/uploads/2025/07/HLS-Commissioning-Resource-10-4.pdf

[xv] https://www.llyw.cymru/datganiad-polisi-caffael-html

[xvi] https://www.llyw.cymru/deddf-caffael-2023

[xvii] https://www.llyw.cymru/deddf-partneriaeth-gymdeithasol-chaffael-cyhoeddus-cymru

[xviii] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2025/99/contents/made/welsh

[xix] https://www.llyw.cymru/caffael-gwasanaethau-iechyd-cyfundrefn-dewis-darparwyr-cymru-pob-canllawiau

[xx] https://www.llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

[xxi] https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2025/1/contents/welsh

[xxii] https://www.llyw.cymru/cynllun-y-trydydd-sector-cod-ymarfer-ar-gyfer-ariannur-trydydd-sector-html

[xxiii] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/joint-bidding-guide.pdf

[xxiv] https://wcpp.org.uk/cy/report/cydweithio-amlsector-i-wella-llesiant-cymunedol/

[xxv] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2026-02/cod-ymarfer-ar-sicrhau-ansawdd-a-rheoli-perfformiad%2C-uwchgyfeirio-pryderon-a-chau-gwasanaethau%2C-mewn-perthynas-%C3%A2-gwasanaethau-gofal-a-chymorth-rheoleiddiedig-2026.pdf

[xxvi] https://www.llyw.cymru/partneriaeth-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol-polisiau-enghreifftiol-ar-gyfer-y-sector-gofal

[xxvii] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

[xxviii] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/149

[xxix] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/welsh

[xxx] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2021/295/contents/made/welsh

[xxxi] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/42/contents

[xxxii] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymru-sy%E2%80%99n-fwy-cyfartal.pdf

[xxxiii] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-child

[xxxiv] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-persons-disabilities

[xxxv] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/united-nations-principles-older-persons

[xxxvi] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/02/202402-Childrens-Commissioner-for-Wales-Right-Way-Social-Care-Welsh.pdf

[xxxvii] https://www.llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-gyflenwi-gwasanaethau-awtistiaeth-0

[xxxviii] https://neurodivergencewales.org/cy/

[xxxix] https://www.llyw.cymru/safonau-cyfathrebu-gwybodaeth-hygyrch-mewn-gofal-iechyd-html

[xl] https://www.llyw.cymru/fframwaith-ar-gyfer-lleihau-arferion-cyfyngol-html

[xli] https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol

[xlii] https://www.equalityhumanrights.com/cy/ein-gwaith/inquiries-and-investigations/profiadau-o-iechyd-gofal-cymdeithasol-triniaeth-gweithwyr-o

[xliii] https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html

[xliv] https://www.traumaframeworkcymru.com/wp-content/uploads/2022/07/Cymru-syn-Ystyriol-o-Drawma.pdf

[xlv] https://www.equalityhumanrights.com/cy/arweiniad/canllawiau-ar-gyfer-comisiynwyr-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru

[xlvi] https://www.cartrefigofal.cymru/

[xlvii] https://gofalcymdeithasol.cymru/cms-assets/documents/Workforce-strategy-CYM-March-2021.pdf

[xlviii] https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/strategaeth-gweithlu/cynllun-cyflawni-gofal-cymdeithasol-2024-2027

[xlix] https://gofalwn.cymru//website-login

[l] https://www.llyw.cymru/gweinyddur-cyflog-byw-gwirioneddol-ar-gyfer-gweithwyr-gofal-cymdeithasol

[li] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2022-2027.pdf

[lii] https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/welsh

[liii] https://www.llyw.cymru/datgarboneiddio-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru

[liv] https://www.llyw.cymru/strategaeth-addasu-ir-hinsawdd-ar-gyfer-cymru-2024

[lv] https://www.theccc.org.uk/publication/a-well-adapted-uk/

[lvi] https://www.llyw.cymru/siarter-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal

[lvii] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2026-03/fframwaith-ymyrraeth-gynnar-ac-atal-i-cefnogi-babanod-plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd-yng-nghymru.pdf

[lviii] Cynlluniau digonolrwydd awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

[lix] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/31/section/28

[lx] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/part/7/welsh

[lxi] https://www.llyw.cymru/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-canllawiau

[lxii] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-5-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-plant-syn-wynebu-risg.pdf

[lxiii] https://www.llyw.cymru/diogelu-oedolion-syn-wynebu-risg-o-gam-drin-neu-esgeulustod

[lxiv] https://www.llyw.cymru/lleihau-arferion-cyfyngol-ar-blant-ac-oedolion

[lxv] https://diogelu.cymru/cy/

[lxvi] https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol

[lxvii] https://www.llyw.cymru/fframwaith-nyth-iechyd-meddwl-lles-cyflwyniad

[lxviii] https://www.llyw.cymru/offeryn-hunanasesu-gweithredu-nyth

[lxix] https://ytydysgu.heiw.wales/?redirectUrl=https%3A%2F%2Fytydysgu.heiw.wales%2Fcourses%2Fa243bded-b8ca-43ad-bd07-d9ed74d1bac8

[lxx] https://www.llyw.cymru/fframwaith-cenedlaethol-ar-ymarfer-amlasiantaethol-ar-gyfer-gwasanaethau-plant-html